Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
46/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
13/06/2024

# Gwerthusiad proses o ehangu graddol Dechrau'n Deg

## Prif adroddiad

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83625-193-4

Gwerthusiad proses o ehangu graddol Dechrau'n Deg: prif adroddiad

Awdur(on): Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2024). Gwerthusiad proses o ehangu graddol Dechrau'n Deg: Prif adroddiad.
Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 46/2024.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-proses-o-ehangu-graddol-dechraun-deg

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Enw: Hannah Davies
Is-adran: Cydraddoldeb, Tlodi, a Thystiolaeth a Chymorth Plant
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwil.plantatheuluoedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o ffigurau ........................................................................................................2
Rhestr termau ...............................................................................................................3
1. Crynodeb gweithredol .........................................................................................4
2. Trosolwg o'r ehangu...............................................................................................8
3. Methodoleg gwerthuso .......................................................................................10
4. Y broses gyflenwi ...............................................................................................12
5. Y model cyflenwi ................................................................................................19
6. Casglu data ac adrodd .......................................................................................36
7. Llwyddiannau .....................................................................................................41
8. Heriau.................................................................................................................44
9. Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.......................................49
10. Casgliad .............................................................................................................52
Atodiad A: Canllaw trafod Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru...................................54
Atodiad B: Canllaw trafod Rheolwyr awdurdod lleol.........................................................57
Atodiad C: Trosolwg o ymgysylltu â rhanddeiliaid............................................................61

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1: Nifer o gynigion yng Ngham 1 ........ 12
Ffigur 2: Nifer o gynigion yng Ngham 2 ........ 13

**Rhestr termau**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| ACEHI | Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is |
| MALIC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| CSCA | Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |

# 1. Crynodeb gweithredol

## Cefndir a dull ymchwil

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi teuluoedd difreintiedig ac i wneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant drwy liniaru effaith tlodi ar eu datblygiad mewn plentyndod cynnar. Lansiwyd rhaglen Dechrau'n Deg am y tro cyntaf yn 2006/7 a'i nod yw datblygu'r agenda hon drwy ddarparu pedair elfen graidd: i) gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel wedi'i ariannu ar gyfer plant dwy i dair oed; ii) gwell cymorth gan ymwelwyr iechyd; iii) mynediad at gymorth rhianta; a iv) cymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

1.2 Yn dilyn ymlaen o'r Rhaglen Lywodraethu (2021),[1] ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ehangu Dechrau'n Deg fesul cam gyda phwyslais arbennig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r ehangu'n cynnwys dau gam sy'n ehangu gwasanaethau Dechrau'n Deg i ardaloedd daearyddol newydd ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. Dechreuodd ardaloedd sy'n gymwys ar gyfer Cam 1 yr ehangu dderbyn pob un o bedair elfen Dechrau'n Deg o fis Medi 2022 ymlaen, gyda'r nod o gyrraedd 2,500 o blant ychwanegol. Roedd Cam 2 yn cynnwys ehangu elfen gofal plant Dechrau'n Deg yn unig o fis Ebrill 2023, gyda tharged o 9,500 o gynigion ychwanegol yn cael eu gwneud i blant.

1.3 Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad proses o ehangu graddol Dechrau'n Deg. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys adolygiad o (i) llwyddiannau a heriau yn y broses gyflenwi, (ii) effeithiau'r ehangu ar randdeiliaid megis awdurdodau lleol, lleoliadau gofal plant, a rhieni, (iii) enghreifftiau o arfer gorau, a (iv) argymhellion ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd y dadansoddiad drwy gyfnod cwmpasu, adolygiad manwl o ddogfennau, ac ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a holl dimau Dechrau'n Deg awdurdodau lleol Cymru.

## Canfyddiadau

1.4 Cyflawnwyd y targedau ar gyfer nifer y cynigion a wnaed i blant cymwys fel rhan o ehangu Cam 1 ym mis Mehefin 2023. O ganlyniad, mae 3,178 o blant ychwanegol

[1] Llywodraeth Cymru (2021), *Rhaglen lywodraethu: diweddariad*.

wedi elwa o Dechrau'n Deg, gan ragori ar y targed o 2,500 o blant. Disgrifiwyd y broses ehangu ar gyfer Cam 1 fel proses esmwyth.

1.5 Mae cyflwyno Cam 2 yr ehangu yn parhau ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Yn nodedig, bodlonwyd y targedau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 yn llwyddiannus. Disgwylir i ehangu Cam 2 gefnogi 9,500 o blant dwy oed ychwanegol i gael mynediad at ofal plant Dechrau'n Deg o safon. Eisoes, bodlonwyd targed cyflenwi Cam 2 o gynnig 4,500 o leoedd gofal plant ychwanegol ar gyfer ehangu gofal plant Dechrau'n Deg yn ystod 2023-24. Wrth drafod cyflenwi Cam 2, roedd awdurdodau lleol yn cytuno'n eang fod y cyflenwi hyd yma wedi bod yn llwyddiannus; fodd bynnag, nodwyd bod nifer o heriau yn y broses.

1.6 Wrth drafod Cam 1 a 2, pwysleisiodd timau Dechrau'n Deg awdurdodau lleol yn unfrydol y cymorth a gawsant gan Reolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol, yn ogystal â thrwy'r canllawiau swyddogol a rannwyd. Serch hynny, roedd awdurdodau lleol yn aml yn trafod y byddai cyfnod paratoi hirach ar gyfer Cam 2 wedi caniatáu cynnwys mwy o leoliadau gofal plant, i allu hysbysu rhieni yn gynharach, ac i addasu capasiti mewnol awdurdodau lleol.

1.7 Roedd model cyflenwi Cam 1 yn dilyn prosesau tebyg ar draws awdurdodau lleol; fodd bynnag, roedd dulliau gweithredu yn amrywio'n ehangach yn ystod Cam 2. Roedd hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau ar gwestiynau megis dewis ardaloedd lle y defnyddiodd awdurdodau lleol gyfuniad o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn ogystal â gwybodaeth leol a ffynonellau data ychwanegol. Nodwyd heriau lle byddai rhannau o rai cymunedau yn dod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau Dechrau'n Deg tra byddai rhannau eraill o'r un cymunedau yn byw ychydig y tu allan i ardaloedd cymwys, yn ogystal â phryderon mynych ynghylch data MALIC yn cael ei ddisgrifio fel data a oedd wedi dyddio.

1.8 Pan ofynnwyd am effaith ehangu Dechrau'n Deg ar leoliadau gofal plant, cafwyd adborth cadarnhaol ynghylch ansawdd y ddarpariaeth gofal plant, hyfforddiant ar gyfer lleoliadau gofal plant, yn ogystal â newidiadau defnyddiol yn y broses o gaffael lleoliadau gofal plant o ganlyniad i'r ehangu. Nododd awdurdodau lleol heriau mawr o ran recriwtio a chadw'r gweithlu gofal plant, a welir fel ffactor sydd wedi oedi'r ehangu hyd yma, ac a fydd cael effeithiau tebyg yn y dyfodol. Ar draws awdurdodau lleol, nodwyd gwahaniaethau yn y model cyflenwi ar gyfer darpariaeth gofal plant

cyfrwng Gymraeg. Yn nodedig, roedd cynyddu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg yn cael ei ystyried yn eang fel llwyddiant.

1.9 Nodwyd y cydweithio â byrddau iechyd o ran rhannu data fel penderfynydd craidd i gyrraedd plant cymwys yn llwyddiannus. Yng Ngham 1, chwaraeodd ymwelwyr iechyd rôl hollbwysig yn hysbysu teuluoedd o'u hawl i Dechrau'n Deg a darparu cymorth iechyd gwell. Gan adlewyrchu ar Gam 2, nodwyd heriau mewn rhanbarthau lle nad oedd modd rhannu data ac felly nid oedd awdurdodau lleol yn gallu cyrchu enwau, dyddiadau geni a chyfeiriadau plant cymwys. Mewn rhai achosion, lliniarwyd hyn yn llwyddiannus trwy gytundebau rhannu data newydd, tra bod awdurdodau lleol eraill yn dibynnu ar berthynas waith agos gydag ymwelwyr iechyd a oedd yn parhau i hysbysu teuluoedd am Dechrau'n Deg. Yn y cyfamser, canfuwyd bod awdurdodau lleol eraill yn dibynnu ar ymgyrchoedd cyhoeddus ehangach i gynyddu ymwybyddiaeth, heb dargedu teuluoedd cymwys yn uniongyrchol.

1.10 Nododd canfyddiadau'r ymchwil i fecanweithiau casglu data fod bob awdurdod lleol yng Nghymru angen cael dull unedig o gasglu data, a oedd yn dilyn yr un diffiniad o gynigion a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Pwysleisiwyd ymhellach y byddai adroddiadau data tymhorol yn lleihau'r baich ar awdurdodau lleol ac yn cyd-fynd ag amserlenni'r sector gofal plant.

**Llwyddiannau a heriau**

1.11 Nododd awdurdodau lleol yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru lwyddiannau allweddol o ran nifer cyffredinol y plant sydd wedi elwa ar y gwasanaeth ehangach, yn ogystal â rhagori ar dargedau ar draws nifer o awdurdodau lleol yng Nghamau 1 a 2. Nodwyd bod datblygu platfformau cofrestru a systemau data newydd yn llwyddiannau craidd pellach, gan ddatgloi buddion parhaol i'r dyfodol i awdurdodau lleol o ran cyrraedd targedau priodol awdurdod lleol i Gam 2, ac o ran ehangu yn y dyfodol. Trydydd maes llwyddiant oedd nifer y lleoliadau gofal plant ychwanegol a oedd yn rhan o Dechrau'n Deg, a anogwyd yn aml drwy brosesau caffael symlach a chymorth gan awdurdodau lleol.

1.12 Drwy gydol y gwerthusiad proses, nododd y rhanddeiliaid nifer o heriau. Nododd y gwerthusiad bryderon mawr a oedd gan randdeiliaid ynghylch recriwtio a chadw staff gofal plant cymwys, yn enwedig staff sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal ag ymwelwyr iechyd. Ystyriwyd bod hyn yn cyfyngu ar gapasiti Dechrau'n Deg mewn

ardaloedd difreintiedig ac ystyriwyd bod hyn yn arafu'r ehangu. Yn ogystal, disgrifiwyd y diffyg rhannu data rhwng byrddau iechyd a nifer o awdurdodau lleol fel her, gan ohirio'r broses o adnabod plant cymwys a'u manylion cyswllt.

**Argymhellion a rhagolygon**

1.13 Gan edrych i'r dyfodol, mae'r gwerthusiad o'r broses yn argymell llinellau amser paratoi hirach i alluogi awdurdodau lleol i ymgysylltu â lleoliadau gofal plant, ehangu capasiti lleol, ac addasu systemau data mewnol i'r gofynion adrodd sydd ar fin cael eu mabwysiadu. Ymhellach, argymhellwyd dull unffurf a safonol o fonitro casglu data, gan ddilyn yr un diffiniadau ledled Cymru i wella eglurder a chaniatáu i ddata ar draws awdurdodau lleol gael eu cymharu, o ran y cynigion a'r nifer sy'n manteisio arnynt.

1.14 Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn yn awgrymu y byddai casglu data yn llai aml ond gyda lefel uwch o fanylder yn cael ei groesawu gan randdeiliaid megis awdurdodau lleol a lleoliadau gofal plant, tra'n darparu mewnwelediad gwerthfawr i effaith Dechrau'n Deg ar ddatblygiad plentyndod cynnar. Gallai hyn gefnogi gwerthusiad effaith y rhaglen yn y dyfodol, gan ganiatáu prawf o effaith y gwahanol gydrannau rhaglen ar ddatblygiad plentyn yn y blynyddoedd cynnar. Yn olaf, pwysleisiodd awdurdodau lleol bwysigrwydd datblygu a chyfleu gweledigaeth hirdymor glir o Dechrau'n Deg ar lefel genedlaethol, gan roi sicrwydd i awdurdodau lleol, lleoliadau gofal plant, a theuluoedd.

## 2. Trosolwg o'r ehangu

2.1 Mae Dechrau'n Deg, a lansiwyd gyntaf yn 2006/7, yn darparu cymorth wedi'i dargedu i deuluoedd â phlant dan bedair oed sy'n byw yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r rhaglen yn ceisio gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant drwy liniaru effaith tlodi ar eu canlyniadau bywyd. Mae'r rhaglen yn cwmpasu pedair elfen graidd:

- gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel wedi'i ariannu i blant dwy i dair oed am 2.5 awr y dydd, bum diwrnod yr wythnos;
- gwell cymorth gan ymwelwyr iechyd;
- mynediad at gymorth rhianta;
- a chefnogaeth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu.

2.2 Roedd y Cytundeb Cydweithio[2] rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ynghyd â'r Rhaglen Lywodraethu[3] ddiwygiedig a ddeilliodd o hynny, yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i ehangu gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn raddol, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dewiswyd Dechrau'n Deg fel y mecanwaith cyflenwi ar gyfer ehangu gofal plant o ansawdd uchel yn raddol i bob plentyn dwy oed.[4] Cyflawnwyd yr ehangu trwy ddau gam cydamserol:

*Cam 1 (Cyflenwi o fis Medi 2022 - Mehefin 2023)*

2.3 Roedd Cam 1 yn cwmpasu ehangu pob un o'r pedair elfen o Dechrau'n Deg i 2,500 o blant ychwanegol ar draws ACEHI dethol yng Nghymru. Cyrhaeddwyd y targed hwn ym mis Ionawr 2023. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, rhagorwyd ar y targed a chyrhaeddwyd dros 3,170 o blant ychwanegol drwy ddarpariaeth Cam 1, gyda dros 770 ohonynt wedi cael cynnig lle gofal plant. Y blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer Cam 1 ehangu Dechrau'n Deg oedd mynd i'r afael ag amddifadedd, cynyddu'r ddarpariaeth iaith Gymraeg, a mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.

*Cam 2 (Cyflenwi o Ebrill 2023 – Yn parhau)*

---

[2] Llywodraeth Cymru (2021), *Y Cytundeb Cydweithio*.

[3] Llywodraeth Cymru (2021), *Rhaglen lywodraethu: diweddariad*.

[4] Cyn yr ehangu, roedd 34,121 o blant wedi elwa ar wasanaethau Dechrau'n Deg rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.

2.4 Mae Cam 2 yn ehangu gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel a ariennir i blant dwy i dair oed mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is nad oeddent wedi'u cynnwys o'r blaen dan Dechrau'n Deg craidd, neu Gam 1. Mae hyn yn golygu ehangu gyda ffocws ar yr elfen gofal plant yn unig, mewn cyferbyniad â rhaglen graidd Dechrau'n Deg neu ehangu Cam 1 a oedd yn cynnwys pedair cydran. Arweinir ehangu Cam 2 gan y flaenoriaeth lefel uchel i sicrhau'r canlyniadau datblygiad gorau posibl i blant er mwyn cefnogi'r dechrau gorau mewn bywyd, yn enwedig i'r plant mwyaf difreintiedig, trwy ofal plant o ansawdd uchel. Ymhellach, mae Cam 2 yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a lliniaru effeithiau amddifadedd, cefnogi a chryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, a mynd i'r afael â bylchau yn y gwasanaethau gofal plant sydd ar gael.

2.5 Nod Cam 2 yw cynnig lleoedd gofal plant i gyfanswm o 9,500 o blant, a ddarperir mewn dwy ran, Cam 2A a Cham 2B. [5] Caiff y rhain eu llywio gan ganllawiau a fformiwlâu ariannu tebyg, ond graddfeydd amser gwahanol a thargedu ardaloedd newydd ar draws awdurdodau lleol. Erbyn diwedd Chwefror 2024, o gwmpas 6,500 o leoedd wedi'u cynnig i rieni plant dwy oed yng Nghymru, sy'n golygu y rhagorwyd ar y targedau ar gyfer 2023-24. Defnyddiwyd mwy na o gwmpas 950 o leoedd gofal plant mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

[5] Sylwch y cyfeirir at Gam 2A a 2B ar y cyd yn gyhoeddus fel Cam 2.

# 3. Methodoleg gwerthuso

### Nodau'r gwethuso

3.1 Cynhaliwyd gwerthusiad proses o ehangu graddol Dechrau'n Deg i gyflawni'r nodau canlynol:

- Adolygu addasrwydd a nodi gwelliannau i adnoddau a rennir gydag awdurdodau lleol
- Adolygu prosesau ar gyfer ymgysylltu awdurdodau lleol â Llywodraeth Cymru
- Deall y cynnydd a wnaed o ran cyrraedd plant ychwanegol
- Nodi heriau posibl yn y dyfodol ar gyfer ehangu parhaus, ac
- Adolygu addasrwydd prosesau casglu data cyfredol ar gyfer monitro, gan gynnwys darparu awgrymiadau i wella.

### Methodoleg

3.2 Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, dewiswyd dull cymysg o werthuso'r broses a'i roi ar waith mewn pedwar cam a amlinellir isod:

- **Cwmpasu.** Roedd y cam hwn yn cynnwys mapio data monitro presennol a rennir gan Lywodraeth Cymru a chael mynediad at wybodaeth ychwanegol berthnasol. Yn seiliedig ar yr adolygiad cychwynnol o'r ddogfen, datblygwyd canllaw cyfweliad trafodaeth gwmpasu i gefnogi cyfweliadau â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Cafodd canfyddiadau o'r cam cwmpasu eu bwydo'n uniongyrchol i ddyluniad deunyddiau ymchwil ar gyfer camau diweddarach ac i fireinio'r blaenoriaethau ymchwil.
- **Adolygiad pen desg**. Cynhaliwyd adolygiad pen desg cynhwysfawr i ddeall union gwmpas ehangu Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r amcanion a'r allbynnau ar gyfer pob cam. Cafwyd mynediad at ddogfennaeth a data allweddol, gan gynnwys y dogfennau canllaw swyddogol a data a ddarparwyd i awdurdodau lleol, datganiadau a negeseuon e-bost yn cyfleu penderfyniadau a chamau ehangu, yn ogystal â chardiau adrodd gyda data ehangu a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol. Cafodd y rhain eu hadolygu wedyn, a threfnwyd y canfyddiadau mewn taenlen.

- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid.** Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig manwl gyda'r timau sy'n gyfrifol am ehangu Dechrau'n Deg ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol, pob un o bedwar Rheolwr Cyfrif Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru, yn ogystal â dau swyddog Llywodraeth Cymru ag arbenigedd mewn ymweliadau iechyd (un ohonynt wedi cael ei gyfweld yn flaenorol yn rhinwedd ei swydd fel Rheolwr Cyfrifon). Yn ystod y cyfweliadau, cafodd prosesau allweddol sy'n ymwneud â chyflwyno'r ddau gam ehangu eu nodi a'u gwerthuso. Rhoddwyd sylw arbennig i (i) llwyddiannau a heriau yn y broses gyflenwi, (ii) effeithiau'r ehangu ar randdeiliaid megis awdurdodau lleol, lleoliadau gofal plant, a rhieni, (iii) enghreifftiau o arfer gorau, a (iv) argymhellion ar gyfer y dyfodol. Dylid nodi na chynhaliwyd unrhyw ymgysylltiad uniongyrchol â rhieni na lleoliadau gofal plant, er bod awdurdodau lleol yn rhannu'r adborth a gawsant ganddynt.
- **Dadansoddiad ac adrodd.** Yn olaf, cynhaliwyd dadansoddiad thematig o ddata ansoddol a nododd themâu allweddol o fewn ac ar draws y wybodaeth a gasglwyd. Yna defnyddiwyd canfyddiadau o'r dadansoddiad o ddogfennau a chyfweliadau ag awdurdodau lleol a swyddogion Llywodraeth Cymru i lunio adroddiad terfynol cynhwysfawr. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn cefnogi datblygiad set o gasgliadau ac argymhellion y gellir eu gweithredu ar gyfer rhaglenni i'r dyfodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a ddarperir gan awdurdodau lleol, neu sy'n ceisio hyrwyddo datblygiad plant blynyddoedd cynnar yn ehangach.

## 4. Y broses gyflenwi

### Cynnydd hyd yma


4.1 Mae’r adran hon yn trafod y cynnydd hyd yma ar gyfer Cam 1 a Cham 2 o ehangu Dechrau’n Deg, gan dynnu ar y dadansoddiad o ddata monitro a chyfweliadau.

*Cam 1*

4.2 Yn achos Cam 1 o ehangu Dechrau’n Deg, cyrhaeddwyd y targed o 2,500 o blant ym mis Ionawr 2023, yn gynharach na’r disgwyl. Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol fod Cam 1 o’r ehangu wedi’i gwblhau. Ledled Cymru, roedd 3,178 o blant ychwanegol wedi elwa o wasanaethau Dechrau’n Deg, gan ragori ar darged Cam 1 o 27 y cant.

4.3 Erbyn mis Mawrth 2023, cyrhaeddwyd y targedau priodol mewn 20 o’r 22 awdurdod lleol, gyda 18 awdurdod wedi rhagori ar eu targedau.[6] Roedd y ddau awdurdod lleol nad oeddent eto wedi cyrraedd eu targed yn agos iawn at gyflawni’r nifer disgwyliedig o blant, gydag un ohonynt angen ychwanegu un plentyn arall a’r llall angen ychwanegu chwech o blant. Ni welwyd unrhyw amrywiadau rhanbarthol sylweddol o ystyried bod awdurdodau lleol wedi rhagori ar eu targedau ar draws holl ranbarthau Cymru.

**Ffigur 1: Nifer o gynigion yng Ngham 1**




*Nodyn: Darparwyd y data monitro gan Lywodraeth Cymru. Data ar gael hyd at fis Mawrth 2023, pan gafodd y targedau cenedlaethol eu cyrraedd a chafodd casgliad data Cam 1 eu hintegreiddio â chasgliad data craidd Dechrau’n Deg.*

[6] Unwaith y cyrhaeddwyd y targedau, cafodd adrodd ar Gam 1 ei integreiddio i ffurflenni craidd Dechrau'n Deg.


4.4 Lleisiodd mwyafrif helaeth o gynrychiolwyr awdurdodau lleol brofiadau cadarnhaol gyda'r cynnydd a wnaed yng Ngham 1 ehangu Dechrau'n Deg, gyda rhai cyfweleion yn disgrifio'r cyflwyniad fel un "di-dor" ochr yn ochr â mân anawsterau o ran y broses o recriwtio ymwelwyr iechyd a grybwyllwyd eisoes. I grynhoi, roedd pob awdurdod lleol yn fodlon ar y cynnydd a wnaed yng Ngham 1 a'r cyfraniad cadarnhaol yr oedd hyn wedi'i wneud i blant a theuluoedd cymwys.

*Cam 2*

4.5 Gallai plant cymwys fanteisio ar ofal plant Dechrau'n Deg drwy Gam 2 yr ehangu o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r broses gyflwyno yn parhau ledled Cymru ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Roedd deg awdurdod lleol yn agos at, neu eisoes wedi rhagori, ar eu nifer targed o blant erbyn Tachwedd 2023, tra bod rhanbarthau eraill yn symud ymlaen yn hwylus tuag at eu targedau. Erbyn Tachwedd 2023, cafodd 85 y cant o nifer targed y cynigion eu gwneud i 4,195 o blant ychwanegol (i fyny o 78 y cant ers diwedd mis Hydref). Erbyn diwedd Chwefror 2024, rhagorwyd ar y targed ac roedd gwmpas 6,500 o blant wedi derbyn cynnig (gweler Ffigur 2). Y targed cyffredinol ar gyfer Cam 2 yw y bydd 9,500 o blant yn cael cynnig gofal plant Dechrau'n Deg erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2024-25.

4.6 Yng Ngham 2, gwelwyd mwy o amrywiad rhanbarthol o'i gymharu â Cham 1. Mae dadansoddi data hyd at Chwefror 2024 yn dangos bod mwyafrif yr awdurdodau lleol yn agos at gyrraedd eu targed neu wedi rhagori ar eu targed eisoes. Dywedodd awdurdodau lleol eraill eu bod wedi profi oedi wrth ehangu.

**Ffigur 2: Nifer o gynigion yng Ngham 2**




*Nodyn: Darparwyd y data monitro gan Lywodraeth Cymru; data ar gael hyd at ddiwedd Chwefror 2024.*

4.7 Rhannodd y cyfweleion awdurdod lleol asesiadau amrywiol o'u cynnydd yng Ngham 2. Nododd y rhan fwyaf o gyfweleion heriau cychwynnol o ran adnabod plant a sefydlu offer cofrestru ar-lein. Lle mae'r heriau hyn wedi'u goresgyn ers hynny, mae awdurdodau lleol yn aml wedi cyrraedd eu targedau ar gyfer Cam 2 eisoes, neu maent ar fin eu cyrraedd. Pwysleisiodd awdurdodau lleol eraill yr heriau o symud tuag at fodel gofal plant yn unig fel rhan o Gam 2 ac o fewn amserlen gyfyngedig. Roedd cyfweleion yn aml yn pwysleisio'r her o nodi a chysylltu â theuluoedd cymwys heb gymorth ymwelwyr iechyd penodedig Dechrau'n Deg na chytundebau rhannu data gyda byrddau iechyd. Serch hynny, pwysleisiodd llawer o'r awdurdodau lleol hyn eu bod yn symud ymlaen yn gyflym tuag at gyflawni eu targedau erbyn diwedd 2023.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg*

4.8 Mae cynyddu'r ddarpariaeth a'r nifer sy'n manteisio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth allweddol i'r ddau gyfnod ehangu. Yng Ngham 1, gofynnodd teuluoedd am 117 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023, a manteisiwyd ar 111 ohonynt. Dywedodd awdurdodau lleol y gallai'r rhesymau dros y bwlch bach hwn rhwng y lleoedd y gofynnwyd amdanynt a'r lleoedd a gafodd eu llenwi fod oherwydd diffyg lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg cyfagos, neu deuluoedd wedi symud i wahanol ACEHI cyn gallu manteisio ar y lleoedd y gofynnwyd amdanynt yn wreiddiol. Yng Ngham 2, o gwmpas cafodd 950 o blant le mewn lleoliadau gofal plant iaith Gymraeg rhwng Ebrill 2023 a Chwefror 2024.

**Amser paratoi ac arwain**

4.9 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar brofiadau gyda'r amser a roddwyd i awdurdodau lleol baratoi ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg fesul cam. Yn benodol, mae'n cynnwys canfyddiadau o drafodaethau ag awdurdodau lleol ynghylch yr amser arweiniol a ddarparwyd i nodi ardaloedd ehangu addas, drafftio cynlluniau cyflenwi, cynnwys lleoliadau gofal plant, a chynyddu ymwybyddiaeth rhieni.

*Cam 1*

4.10 Derbyniodd awdurdodau lleol y canllawiau Cam 1 a'r templedi cynllunio ym mis Ebrill 2022, gyda disgwyliad y byddai pedair elfen Dechrau'n Deg yn cychwyn cael

eu hehangu o fis Medi 2022 ymlaen. Teimlai mwyafrif helaeth o'r cyfweleion fod yr amser paratoi ar gyfer Cam 1 yn ddigonol i nodi ardaloedd ehangu addas a thrafod penderfyniadau gyda rhanddeiliaid, ymgysylltu â lleoliadau gofal plant i annog cyfranogiad yn yr ehangu a rhoi gwybod iddynt am ofynion Dechrau'n Deg, a chodi ymwybyddiaeth o fanteision y rhaglen ymhlith rhieni.

4.11 Gyda rhagor o amser paratoi, roedd awdurdodau lleol o'r farn y byddai hyn wedi hwyluso buddsoddiadau cyfalaf uniongyrchol i gapasiti'r sector gofal plant mewn ardaloedd nas gwasanaethir yn ddigonol. Yn gysylltiedig â hynny, galwodd rhai awdurdodau lleol am gynllun strategol hirdymor cenedlaethol ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, a welir fel rhywbeth sy'n cynyddu hyder y sector i fuddsoddi mewn prosiectau i ehangu'r sector gofal plant (er enghraifft, drwy seilwaith ffisegol a buddsoddiad hirdymor yn y gweithlu).

*Cam 2*

4.12 Rhannwyd templedi ar gyfer cynlluniau ehangu a chyllid cysylltiedig ar gyfer Cam 2A gydag awdurdodau lleol ar 2 Tachwedd 2022. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau Cam 2A oedd 13 Ionawr 2023 a disgwyliwyd i leoedd gael eu darparu o fis Ebrill 2023. Ar 23 Rhagfyr Yn 2022, hysbyswyd awdurdodau lleol am gam ychwanegol, sef Cam 2B o ehangu Dechrau'n Deg, a gofynnwyd iddynt ddarparu cynlluniau ehangu Cam 2B. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau ehangu Cam 2B oedd diwedd mis Chwefror 2023 (gan gynnwys weithiau'r prosesau cymeradwyo mewnol o fewn awdurdodau lleol), a disgwyliwyd i leoedd gofal plant fod ar gael o fis Ebrill 2023. Mewn e-bost yn cyhoeddi Cam 2B ym mis Rhagfyr 2022, roedd Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi y byddai cynyddu cyrhaeddiad Cam 2 ymhellach yn "heriol, yn enwedig o ystyried y pwysau ar gapasiti'r sector ac amseriad y cyhoeddiad."

4.13 Dywedodd cynrychiolwyr pob awdurdod lleol fod yr amser paratoi ar gyfer Cam 2 wedi bod yn annigonol. Roedd y rhesymau a grybwyllwyd yn cynnwys nad oedd yr amserlenni yn rhoi cyfrif am brosesau gweithdrefnol a democrataidd mewnol yr awdurdodau lleol, yr heriau o symud i fodel gofal plant yn unig heb gymorth ymwelwyr iechyd, a'r angen i ymgysylltu â mwy o leoliadau gofal plant i gynyddu capasiti. Nododd Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru fod gwersi i'w dysgu i'r dyfodol ynghylch caniatáu mwy o amser cynllunio ar ôl i gyhoeddiad gael ei wneud.

Ar yr un pryd, roeddent yn nodi'r cyfyngiadau oedd yn bodoli i dimau polisi Llywodraeth Cymru, na allent gyfleu penderfyniadau ehangu cyn i brosesau cyllidebol ffurfiol gael eu cynnal, ac i'r cynlluniau gael cymeradwyaeth lefel-uchel.

4.14 Pwysleisiodd awdurdodau lleol y dylai gwybodaeth Cam 2A a 2B yn ddelfrydol fod wedi dod ar yr un pryd neu, fel arall, y byddai cyhoeddiad anffurfiol i bob awdurdod lleol ymlaen llaw wedi bod yn ddefnyddiol.

4.15 Esboniodd rhai cyfweleion eu dull cynllunio ar wahân, gan nodi y byddent wedi dewis gwahanol ardaloedd ehangu yng Ngham 1 pe baent yn gwybod y byddai Cam 2 ond yn ariannu cynnig o ofal plant ansawdd uchel. Er enghraifft, ehangodd un awdurdod lleol i ACEHI cymharol anghysbell yng Ngham 1, ymhell i ffwrdd o ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol lleferydd ac iaith; fodd bynnag, roedd yn debygol o fod yn fwy addas ar gyfer ehangu Cam 2. Ar y cyfan, dilynodd awdurdodau lleol wahanol ddulliau o gynllunio a chyflenwi Cam 2A a 2B. Cyfunodd rhai rhanbarthau eu cynlluniau ehangu ar gyfer Cam 2A a 2B mewn un cynllun, ond dywedodd eraill eu bod wedi eu cadw ar wahân. Lle cyflawnwyd cynlluniau ar y cyd, y nod oedd i leihau'r achosion o ddyblygu gwaith a hwyluso meddwl cydgysylltiedig drwy gydol y broses o gynllunio a chyflenwi Cam 2.

4.16 Mynegodd llawer o gyfweleion awdurdod lleol rwystredigaeth ynghylch yr amser a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i gymeradwyo cynlluniau ehangu ar gyfer Cam 2A a 2B. Hyd nes y bo'r cynlluniau ehangu wedi cael eu cymeradwyo a chyllid wedi ei bennu gan Lywodraeth Cymru, ni allai awdurdodau lleol ymrwymo adnoddau sylweddol i'r sector gofal plant mewn ardaloedd ehangu. Yn ôl y cyfweleion a Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru, roedd hyn yn rhwystro dull rhagweithiol o recriwtio staff ychwanegol, paratoi a hyfforddi lleoliadau, a buddsoddi mewn mwy o gapasiti. Mewn awdurdodau lleol sydd â nifer is o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg, ystyriwyd bod buddsoddi mewn adeiladu capasiti o'r fath o fewn lleoliadau gofal plant presennol neu sefydlu lleoliadau newydd yn hanfodol.

**Cymorth gan Lywodraeth Cymru**

4.17 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y cymorth a gafodd awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru wrth iddynt ehangu Dechrau'n Deg. Rhoddir ffocws penodol ar brofiadau awdurdodau lleol gyda'r arweiniad a gawsant gan Lywodraeth Cymru a chymorth gan Reolwyr Cyfrifon Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru.

*Cyffredinol*

4.18 Canmolodd y cyfweleion yn gyffredinol y cymorth a gawsant gan Reolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru yn ystod dau gam yr ehangu, gan nodi bod gan Reolwyr Cyfrifon agwedd gadarnhaol a llawn cydymdeimlad. Roedd pedwar Rheolwr Cyfrifon Dechrau'n Deg o fewn Llywodraeth Cymru, pob un yn cefnogi rhwng 5 a 6 awdurdod lleol ac yn canolbwyntio ar ateb ymholiadau Dechrau'n Deg, yn egluro ac esbonio'r canllawiau, uwchgyfeirio cwestiynau neu bryderon, a chefnogi eu hymdrechion casglu data (er enghraifft, trwy drafod neu egluro diffiniadau yn y ffurflenni data).

Tra'n mynegi gwerthfawrogiad o gymorth Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru drwy gyfarfodydd ar-lein, roedd un cynrychiolydd awdurdod lleol o'r farn y byddai cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng arweinwyr Dechrau'n Deg mewn gwahanol awdurdodau lleol wedi bod yn ddefnyddiol i rannu arfer gorau a meithrin perthynas agosach. Teimlai rhai awdurdodau lleol hefyd, er bod Rheolwyr Cyfrifon yn gwrando ar bryderon ac yn egluro'r canllawiau, nad oedd ganddynt y dylanwad i ysgogi newidiadau neu addasiadau ar lefel rhaglen. Pwysleisiwyd hyn yn arbennig o ran y diffyg rhannu data rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yn ogystal â'r ansicrwydd ynghylch sut y gellid defnyddio arian heb ei wario a oedd wedi ei ddyrannu i ehangu yn y dyfodol.

*Cam 1*

4.19 Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion yn teimlo bod y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cam 1 yn adeiladol a defnyddiol. Dywedodd awdurdodau lleol eu bod yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer eu hardal a'r rhesymeg y tu ôl i benderfyniadau. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn egluro i rieni a lleoliadau gofal plant pam fod rhai penderfyniadau yn cael eu gwneud; er enghraifft, sut y dewiswyd ACEHI newydd i ehangu'r gwasanaethau Dechrau'n Deg iddynt. Teimlai rhai cyfweleion y gallai'r canllawiau ar gyfer Cam 1 fod wedi'u rhannu ynghynt.

*Cam 2*

4.20 Disgrifiwyd y canllawiau Cam 2 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru eto fel rhai tebyg i ganllawiau Cam 1, a chafwyd canmoliaeth debyg am eu cyfuniad o fanylion digonol i helpu awdurdodau i wneud ac egluro penderfyniadau i rieni a lleoliadau.

Hefyd, roedd y canllawiau'n darparu digon o hyblygrwydd i addasu’r ddarpariaeth i'w hardal. Dywedodd tîm Dechrau’n Deg un awdurdod lleol na ellid cyflogi unrhyw ymwelwyr iechyd rhan-amser i gynorthwyo yng Ngham 2, ond yn y cyfamser roedd awdurdodau lleol eraill wedi dilyn y llwybr hwn, yn ôl pob sôn. Mae hyn yn dangos bod angen mwy o eglurder yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

## 5. Y model cyflenwi

5.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o ddulliau awdurdodau lleol o gyflenwi'r ddau gam ehangu. Mae hyn yn cynnwys trafodaeth ar y pynciau canlynol:

- Y broses o ddewis ACEHI cymwys ar gyfer yr ehangu graddol;
- Adborth gan deuluoedd a lleoliadau gofal plant ar yr ehangu hyd yma;
- Darparu lleoedd gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Profiadau o gydweithio â byrddau iechyd;
- Alinio Dechrau'n Deg â pholisïau cyfagos yn y sector;
- Ariannu'r ddau gam ehangu.

Drwy gydol yr adran hon, mae Cam 1 a Cham 2 yn aml yn cael eu trafod ar y cyd lle mae canfyddiadau'n berthnasol i'r ddau gam, oni nodir yn wahanol.

**Dewis ardal ar gyfer ehangu**

5.2 Yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, dewisodd awdurdodau lleol Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) ychwanegol ar gyfer pob cam o ehangu Dechrau'n Deg. Gwnaed y detholiad hwn drwy ystyried amrywiaeth o setiau data a chyd-destunau lleol.

*Cyffredinol*

5.3 Defnyddiodd pob awdurdod lleol Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) i nodi set o ACEHI sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, dywedodd mwyafrif yr awdurdodau lleol eu bod yn teimlo bod y wybodaeth hon wedi dyddio. Yn lle hynny, dewisodd timau Dechrau'n Deg awdurdodau lleol i ategu data MALIC â data arall oedd ar gael i'r awdurdod lleol, gyda chymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru lle bo angen. Roedd yr enghreifftiau a grybwyllwyd yn cynnwys nifer y plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nifer y plant ag anghenion dysgu ychwanegol, nifer y plant sy'n gymwys i gael grantiau gwisg ysgol, nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaethau cymdeithasol, nifer yr aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer cynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor, a gwybodaeth leol ar ffurf adroddiadau gan ymwelwyr iechyd. Ategodd rhai cyfweleion awdurdod lleol y data hwn trwy ymweliadau personol â'r ACEHI i sicrhau bod y data'n gyfredol (e.e. gwirio am ddatblygiadau tai newydd). Roedd ymweliadau personol o'r fath hefyd yn galluogi timau awdurdodau lleol i ymchwilio i weld a oedd

ACEHI newydd-gymhwyso yn ffurfio ardal ddaearyddol gydlynol (e.e. heb eithrio rhannau o'r gymdogaeth a oedd fel arall yn gymwys) er mwyn osgoi rhannu cymunedau.

5.4 Nodwyd ffactor cyfyngol ar gyfer dethol ardal lle nad oedd gan yr ACEHI leoliadau gofal plant addas mewn ardal hygyrch gyfagos. Eglurodd awdurdodau lleol fod ACEHI o'r fath yn aml yn gorfod cael ei eithrio o'r ehangu oni bai bod gofal plant ar gael o fewn pellter cerdded rhesymol ("pellter gwthio pram"), yn ôl canllawiau ehangu Dechrau'n Deg.

5.5 Mewn cyferbyniad, tynnodd Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sylw hefyd at ardaloedd daearyddol lle roedd bron pob ACEHI yn gymwys eisoes, o ystyried y lefelau amddifadedd. Ystyriwyd bod hyn yn arwain at ddarpariaeth uwch mewn rhai awdurdodau lleol lle'r oedd bron y cyfan o'r ACEHI, neu'r cyfan ohoni, yn dod o dan Dechrau'n Deg, gan hwyluso gweithrediad lleoliadau gofal plant a allai wedyn ddarparu lleoedd i'r mwyafrif o blant yn yr ardal.

*Cam 1*

5.6 Defnyddiodd llawer o awdurdodau lleol y cyfle i ehangu Cam 1 i sicrhau bod teuluoedd ar draws y gymuned leol yn cael mynediad cyfartal i Dechrau'n Deg, er gwaethaf ardal sy'n debygol o gynnwys sawl ACEHI. Er enghraifft, lle'r oedd pob ACEHI ac eithrio un eisoes yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg, cafodd ardaloedd o'r fath a oedd yn weddill eu blaenoriaethu o dan Gam 1. Roedd hyn yn cefnogi awdurdodau lleol i unioni canfyddiadau rhieni o annhegwch a sicrhau cymunedau cydlynol. Roedd cyfweleion hefyd o'r farn y byddai ehangu i glystyrau o ACEHI ychwanegol yn golygu y byddai lleoliadau gofal plant yn dod yn gynaliadwy yn ariannol neu'n parhau i fod yn gynaliadwy.

5.7 Gan gynnig rhagolwg ar gyfer y dyfodol, tynnodd awdurdodau lleol sylw at heriau o ran cyfraddau genedigaethau sy'n gostwng a newid demograffig wrth gyrraedd targedau, cynllunio ehangu yn y dyfodol, neu gynnal nifer digonol o blant sydd angen gwasanaethau gofal plant. Dywedir bod nifer o awdurdodau lleol eisoes wedi paratoi estyniadau pellach i ACEHI newydd, oherwydd bod cyfraddau geni yn gostwng mewn ardaloedd cymwys ar hyn o bryd.

*Cam 2*

5.8 Yn debyg i Gam 1, defnyddiodd sawl awdurdod lleol Gam 2 i ehangu darpariaeth gofal plant i ACEHI lle'r oedd ardaloedd cyfagos eisoes yn gymwys o dan Dechrau'n Deg craidd neu Gam 1. Fodd bynnag, lle'r oedd ardaloedd presennol yn gymwys ar gyfer pob un o bedair elfen Dechrau'n Deg, nodwyd anawsterau pe bai teuluoedd newydd-gymhwyso yn derbyn gofal plant Dechrau'n Deg yn unig. Dywedodd awdurdodau lleol fod rhai rhieni wedi drysu ynghylch y ddau fodel o ddarpariaeth o dan yr un enw ac awgrymwyd bod angen cynyddu dealltwriaeth o'r dull cyfannol a gynigir gan Dechrau'n Deg. Yn ogystal, ystyriwyd bod rhannau o'r un gymuned a oedd yn gymwys ar gyfer gwahanol fathau o gymorth yn hybu anfodlonrwydd rhieni, a oedd yn aml yn cysylltu ag awdurdodau lleol i ofyn am esboniadau am y gwahaniaethau. Nodwyd hyn fel pryder gan fwyafrif o awdurdodau lleol ac arweiniodd at e-byst a galwadau ffôn cyson gan rieni.

**Mynediad at wasanaethau i deuluoedd cymwys**

5.9 Mae galluogi teuluoedd sydd â'r angen mwyaf i gael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg yn allweddol i lwyddiant y rhaglen. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r adborth a safbwyntiau a rannwyd gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol neu a adroddwyd gan awdurdodau lleol ar ran rhieni.

*Cyffredinol*

5.10 Dywedodd awdurdodau lleol yn eang bod mwyafrif helaeth o rieni cymwys wedi cael cynnig mynediad llwyddiannus i wasanaethau Dechrau'n Deg ar gyfer Cam 1 a Cham 2. Nododd mwyafrif mawr y gallent gynnig lleoliadau ac amser sesiynau o ddewis y rhieni ar gyfer yr elfen gofal plant, yn ogystal â gallu cynnig dewis iaith y ddarpariaeth a'r math o leoliad (e.e. lleoliad awdurdod lleol, lleoliad preifat, gwarchodwr plant).

5.11 Er y disgrifiwyd Cam 1 yn eang fel un llwyddiannus o ran cynnig a galluogi mynediad i deuluoedd cymwys, roedd awdurdodau lleol yn tueddu i ffocysu ar eu harsylwadau penodol o gyflenwi Cyfnod 2. Tynnodd awdurdodau lleol sylw at nifer fach o ganlyniadau anfwriadol naill ai oherwydd ymdrechion cyflwyno parhaus neu gyfyngiadau ar gapasiti lleol. Dywedodd cyfweleion, mewn achosion prin, bod diffyg capasiti gofal plant lleol yn golygu bod plant yn cael cynnig llai o sesiynau na'r hyn y

mae ganddynt hawl iddo. Fodd bynnag, golygai hyn ganiatáu eithriadau dros dro o'r canllawiau mewn ardaloedd penodol yn unig. Roedd rhwystrau pellach a wynebwyd gan deuluoedd cymwys, fel yr adroddwyd gan awdurdodau lleol, yn cynnwys oriau gwaith rhieni ddim yn cyd-fynd â'r gofal plant sesiynol o 2.5 awr am bum diwrnod yr wythnos a ddarperir trwy Dechrau'n Deg. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig eithriadau dros dro i'r rheolau hyn – megis caniatáu sesiynau hirach yn llai aml, eithriadau dros dro o'r gofynion cymwysterau (e.e. rheolwyr yn gweithio tuag at Lefel 5 yn hytrach na bod â Lefel 5 eisoes), neu gynyddu'r pellter y disgwylir i deuluoedd deithio i ofal plant y tu hwnt i daith gerdded 15 munud.

5.12 Er mwyn manteisio ar le gofal plant a ariennir drwy Dechrau'n Deg tra'n gweithio'n llawn amser, roedd rhieni'n aml yn defnyddio'r posibilrwydd o dalu am oriau ychwanegol o ystyried mai dim ond oriau penodol o ofal plant bob dydd y mae Dechrau'n Deg yn eu cynnwys. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosibl i rieni nad oedd ganddynt fodd ariannol i dalu am oriau ychwanegol mewn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg, neu'r rhieni hynny a oedd yn byw'n agos at leoliad Dechrau'n Deg sesiynol yn unig. Esboniodd awdurdodau lleol nad yw lleoliadau gofal plant sesiynol yn cynnig gofal plant yn ystod y diwrnod gwaith llawn, a allai ysgogi rhieni i chwilio am ofal plant hyblyg yn rhywle arall, gan ildio'r cynnig o le Dechrau'n Deg. Ymhellach, esboniodd awdurdodau lleol fod rhieni'n gwrthod lleoedd pan fyddai'n well ganddynt gael mynediad i leoliad gofal plant mewn awdurdod lleol cyfagos, yn aml os oeddent yn byw mewn rhanbarthau ffiniol, neu lle mae'r rhieni'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwahanol.[7]

*Cam 2*

5.13 O dan ehangu craidd Dechrau'n Deg a Cham 1, chwaraeodd ymwelwyr iechyd ran allweddol i hysbysu rhieni eu bod yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg, a ystyriwyd ei fod hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar y nifer oedd yn manteisio ar ofal plant. Yng Ngham 2, fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol yn aml yn estyn allan at deuluoedd mewn ACEHI cymwys trwy daflenni neu ymgyrchoedd cyhoeddus lleol. Roedd rhai timau Dechrau'n Deg awdurdodau lleol felly'n pryderu y gallai'r teuluoedd mwyaf agored i niwed (e.e. incwm isel yn croestorri ag anghenion iechyd ychwanegol) naill ai gael eu methu neu y byddent yn parhau i fod yn amharod i fanteisio ar ofal plant

[7] Dylid nodi bod trefniadau trawsffiniol yn eu lle ac wedi cael eu trafod trwy weithgor.

Dechrau'n Deg o ganlyniad i ddiffyg cyswllt personol. Roedd timau Dechrau'n Deg â chysylltiadau agosach â'r bwrdd iechyd lleol neu ymwelwyr iechyd yn aml yn defnyddio'r cysylltiadau personol agosach hyn â theuluoedd i fynd ar eu trywydd dro ar ôl tro neu i geisio eglurhad o'r rhesymau dros y nifer isel o deuluoedd sy'n gwrthod cynigion. Nid oedd data ar y rhesymau dros y gostyngiad yn y cynigion ar gael ar gyfer yr holl gynigion a wrthodwyd, ond roedd rhai enghreifftiau o'r rhesymau dros y gostyngiad yn y cynigion yn cynnwys gofal plant yn cael ei ddarparu gan aelodau o'r teulu, neu'n dewis peidio â newid lleoliad gofal plant yn ddwy oed os oedd y plentyn eisoes mewn lleoliad arall nad yw'n un Dechrau'n Deg cyn iddo ddod yn gymwys.

*Allgymorth*

5.14 Mae mecanwaith Allgymorth ehangu Dechrau'n Deg yn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i deuluoedd penodol hyd yn oed os nad ydynt yn byw mewn ACEHI cymwys. Dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod yn derbyn atgyfeiriadau unigol ar gyfer teuluoedd gan weithwyr proffesiynol - fel arfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol - a bod y rhain yn cael eu hadolygu wedyn gan banel aml-asiantaeth. Mae lleoedd Allgymorth o'r fath fel arfer yn cael eu cadw ar gyfer amgylchiadau eithriadol ac yn cael sylw trwy gynnig y pedair cydran graidd i deuluoedd priodol. Bu nifer fach o awdurdodau lleol yn trafod defnyddio Allgymorth yn ehangach. Er enghraifft, esboniodd un awdurdod lleol ei fod yn defnyddio Allgymorth i lenwi bylchau daearyddol o fewn cymunedau lle mai dim ond rhai ardaloedd sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg.

5.15 Adroddwyd am un her nodedig mewn achosion lle'r oedd lleoedd Allgymorth eisoes wedi'u cymeradwyo a bod teulu wedi derbyn y pedair elfen, dim ond i'w ACEHI ddod yn gymwys ar gyfer ehangu Cam 2. Yn ôl rhai cyfweleion, arweiniodd hyn at gwynion gan rieni a diffyg dealltwriaeth o'r modelau darpariaeth gwahanol o fewn yr un codau post neu godau post cyfagos.

*Ardaloedd gwledig*

5.16 Trafododd cyfweleion awdurdod lleol o dimau Dechrau'n Deg sy'n ehangu i ACEHI wledig sut yr oeddent yn wynebu heriau penodol o ganlyniad i ddwysedd poblogaeth is, llai o opsiynau lleoliadau gofal plant, a heriau o ran denu gweithlu medrus. Pwysleisiodd y cyfweleion fod rhaid iddynt ddod â nifer fwy o leoliadau

gofal plant i mewn i Dechrau'n Deg, o ystyried y pellteroedd daearyddol rhwng ACEHI cymwys gwahanol na ellid eu gwasanaethu gan yr un lleoliad. Yn ogystal, gallai teuluoedd cymwys sy'n byw ymhell o'u lleoliad gofal plant agosaf ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal plant mewn modd amserol a allai arwain at lai o ddefnydd mewn awdurdodau lleol gwledig. Tynnodd awdurdodau lleol sylw felly at bryderon ynghylch hyfywedd economaidd lleoliadau gofal plant gwledig presennol neu rai i'r dyfodol, a oedd yn aml yn wynebu poblogaeth leol sy'n lleihau.

5.17 Awgrymodd rhai cyfweleion o awdurdodau lleol gwledig fod Dechrau'n Deg fel rhaglen yn fwy addas ar gyfer ardaloedd trefol a'i fod yn cyflwyno heriau i awdurdodau lleol wrth ehangu'r ddarpariaeth i ardaloedd mwy gwledig. Mae tlodi gwledig yn aml yn lleol iawn, meddai'r cyfweleion, gydag un teulu difreintiedig iawn wedi'i amgylchynu gan aelwydydd llai difreintiedig. Er y gellid defnyddio'r mecanwaith Allgymorth i gynnwys y plant hyn, yn ymarferol, efallai y bydd rhai teuluoedd yn byw mewn lle mor anghysbell fel na fydd unrhyw leoliadau gofal plant cyfagos ar gael. Cynigiodd un awdurdod lleol sy'n wledig yn bennaf dreialu gwasanaethau gofal plant "pop-up" mewnol mewn ardaloedd gwledig, a allai ddarparu 2.5 awr o wasanaethau Dechrau'n Deg mewn gwahanol gymunedau ar yr un diwrnod. Pwysleisiodd awdurdodau lleol eraill bwysigrwydd cynyddu nifer y gwarchodwyr plant sy'n cyflenwi darpariaeth Dechrau'n Deg i gwmpasu ardal ddaearyddol ehangach ond eto sydd angen nifer llai o blant i sicrhau hyfywedd economaidd.

**Effaith ehangu Dechrau'n Deg ar leoliadau gofal plant**

*Ansawdd y ddarpariaeth*

5.18 Er mwyn darparu gofal plant o ansawdd uchel, mae Dechrau'n Deg yn ei gwneud yn ofynnol i leoliadau gofal plant gael eu harwain gan reolwr lleoliad cymwys Lefel 5 ac i ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant fod â chymwysterau Lefel 3. Roedd mwyafrif o dimau Dechrau'n Deg awdurdodau lleol yn rhannu'r farn bod ehangu Dechrau'n Deg felly wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ansawdd y ddarpariaeth gofal plant o fewn ac ar draws lleoliadau gofal plant (e.e., drwy ofynion cymwysterau uwch ar gyfer staff, safonau uchel o ran offer, a gofod y lleoliad). Roedd rhai cyfweleion o dan yr argraff bod lleoliadau gofal plant newydd yn cynnig gwasanaethau o ansawdd uchel iawn ac nad oeddent angen fawr ddim cymorth, os

o gwbl, o'r dechrau. Mewn lleoliadau gofal plant newydd eu derbyn, esboniodd awdurdodau lleol, trwy ymuno â Dechrau'n Deg, fod y lleoliadau hyn bellach yn rhwym i ddisgwyliadau ansawdd uwch. Dywedwyd bod safonau ansawdd uwch o'r fath yn cael eu hategu gan fwy o oruchwyliaeth o'r ffordd y caiff lleoliadau gofal plant eu rhedeg yn gyffredinol, p'un a oedd rhai lleoedd yn cael eu cynnig i deuluoedd sy'n talu'n breifat neu dan gyllid heblaw Dechrau'n Deg. Felly, roedd cyfweleion yn cydnabod safonau uwch a throsolwg fel canlyniad anfwriadol cadarnhaol a allai gyfrannu'n gadarnhaol at ddarpariaeth o ansawdd i bob plentyn mewn lleoliadau sy'n cynnig unrhyw leoedd Dechrau'n Deg (e.e. lefelau cymwysterau staff).

5.19 Soniodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol nad oedd rhai lleoliadau gofal plant a ymunodd yn ystod yr ehangu graddol wedi cyrraedd y safonau ansawdd gofynnol eto, yn enwedig o ran cymwysterau Lefel 5 gan reolwyr. Serch hynny, nododd cyfweleion fod y rhan fwyaf o leoliadau gofal plant yn gweithio'n gyflym tuag at gyrraedd targedau gyda chymorth timau cynghori Dechrau'n Deg neu athrawon ymgynghorol, a rhannu arfer gorau o leoliadau eraill.

*Hyfforddiant ar gyfer lleoliadau gofal plant*

5.20 Tynnodd awdurdodau lleol sylw at yr hyfforddiant arbenigol yr oeddent yn ei ddarparu i leoliadau gofal plant er mwyn cynorthwyo'r rhain i gyrraedd y safonau ansawdd uwch sy'n ofynnol gan Dechrau'n Deg. Mewn rhai awdurdodau lleol, darparwyd hyfforddiant iechyd ychwanegol i leoliadau gofal plant i fynd i'r afael ag absenoldeb cyfranogiad uniongyrchol gan ymwelwyr iechyd ac i arfogi lleoliadau i ganfod anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion iechyd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a chymorth ynghylch diet, lleferydd ac iaith, a datblygiad plentyndod cynnar. Darparwyd hyfforddiant ychwanegol hefyd i leoliadau gofal plant gan rai awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag oedi datblygiadol plant yn dilyn pandemig Covid-19.

5.21 Esboniodd awdurdodau lleol eu bod yn darparu hyfforddiant ar adegau cyson, naill ai drwy gyswllt personol ag athrawon ymgynghorol yn yr awdurdod lleol a fyddai'n ymweld â lleoliadau gofal plant, neu drwy Microsoft Teams i wneud hyfforddiant yn

hygyrch i bob lleoliad. Roedd y sesiynau hyn yn aml yn cael eu recordio ac ar gael i'r rhai nad oeddent wedi gallu mynychu'r sesiwn.

*Proses gaffael ar gyfer lleoliadau gofal plant*

5.22 Dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod wedi defnyddio proses dendro gystadleuol ffurfiol i gofrestru lleoliadau gofal plant gyda Dechrau'n Deg. Eglurwyd y gallai'r broses hon fod yn hir a chymhleth ond ei bod yn cael ei gweld yn drylwyr ac yn addas ar gyfer sicrhau safonau ansawdd uchel. Yn ôl rhai awdurdodau lleol, roedd rhai lleoliadau gofal plant yn ystyried bod prosesau tendro ffurfiol yn fiwrocrataidd ac yn araf.

5.23 Er mwyn mynd i'r afael â phryderon a hwyluso'r broses o gynnwys lleoliadau gofal plant newydd, defnyddiodd rhai awdurdodau lleol brosesau tendro arloesol i ehangu'r capasiti gofal plant ar gyfer ehangu Cam 2 Dechrau'n Deg. Gan amrywio fesul awdurdod lleol, mae'r prosesau hyn yn cynnwys 'Datganiadau o Ddiddordeb' a 'Systemau Prynu Deinamig'. Esboniodd cyfweleion y gallai lleoliadau gofal plant, drwy'r systemau hyn, fynegi diddordeb mewn dod yn lleoliad gofal plant a gymeradwyir gan Dechrau'n Deg a chael yr awdurdod lleol i asesu eu hansawdd. Felly, gallai lleoliadau fynd i mewn i'r fframwaith cyflenwyr ar gyfer Dechrau'n Deg yn haws a chael y cymorth gofynnol i gyflawni safonau ansawdd Dechrau'n Deg. Yn achos Abertawe, roedd holl leoedd gofal plant Dechrau'n Deg wedi'u darparu'n flaenorol gan yr awdurdod lleol mewn lleoliadau a gynhelir, fel ysgolion. Newidiwyd y dull hwn yn sylfaenol ar ôl cyhoeddi ehangu Cam 2, gan arwain at fabwysiadu fframwaith caffael sydd newydd ei gyflwyno ar gyfer lleoliadau gofal plant preifat, gyda'r bwriad o gyrraedd targedau cyflenwi.

5.24 Dywedodd awdurdodau lleol sydd wedi mabwysiadu'r prosesau tendro arloesol hyn fod y rhain yn cael eu croesawu'n frwd gan leoliadau gofal plant ac wedi arwain at i fwyafrif helaeth o leoliadau gofal plant yn eu hawdurdod lleol gael eu cofrestru o fewn eu fframweithiau Dechrau'n Deg.

5.25 Amlinellodd awdurdodau lleol hefyd adborth gan leoliadau gofal plant a oedd wedi dewis peidio â darparu lleoedd Dechrau'n Deg. Roedd y rhesymau penodol a nodwyd yn cynnwys diffyg capasiti (naill ai nifer annigonol o staff neu ddiffyg lle), anallu lleoliadau gofal plant i fodloni gofynion ansawdd, cyfraddau a delir gan yr awdurdod lleol fesul plentyn ac fesul awr yn cael eu hystyried yn rhy isel, yn ogystal

â chanfyddiadau eraill o feichiau biwrocratiaeth ar leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg.

*Recriwtio staff*

5.26 Dywedodd y mwyafrif o awdurdodau lleol fod recriwtio staff â lefelau cymhwyster digonol yn her ddifrifol i'r sector gofal plant a oedd hefyd yn effeithio ar y broses o ehangu Dechrau'n Deg fesul cam, yn enwedig Cam 2. Adroddwyd fod lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn wynebu heriau arbennig o ddifrifol i recriwtio staff cymwys sy'n siarad Cymraeg. Awgrymodd cyfweleion fod cyflogau isel a diffyg gwerthfawrogiad canfyddedig o waith gofal plant yn rhesymau craidd dros i staff adael y sector neu betruso ynghylch ymuno â'r gweithlu.

5.27 Roedd awdurdodau lleol yn croesawu'r uchelgais o ofal plant o ansawdd uchel drwy ei gwneud yn ofynnol i gael staff cymwys iawn (Lefel 3 ar gyfer ymarferwyr a Lefel 5 ar gyfer rheolwyr lleoliadau), ond roeddent yn cydnabod bod angen llacio'r gofynion ar adegau dros dro er mwyn agor neu gynnal lleoliadau.

5.28 Yn y tymor byr, awgrymodd awdurdodau lleol y dylai cymwysterau cyfatebol o wledydd eraill – gan gynnwys Lloegr a'r Alban – gael eu cydnabod yn gyflym yng Nghymru. Yn y tymor hwy, galwodd awdurdodau lleol am fuddsoddiad uchelgeisiol a strategol yn y gweithlu gofal plant i wella cyfraddau cadw, hybu recriwtio, a chefnogi cymwysterau staff ar draws y sector.

**Darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg**

5.29 O ystyried cyfrannau gwahanol o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg fesul awdurdod lleol, cydnabuwyd gwahanol fannau cychwyn wrth annog pobl i fanteisio ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg fel rhan annatod o Dechrau'n Deg. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y ffordd y gwnaeth awdurdodau lleol integreiddio'r gwaith o hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan allweddol o ehangu lleol. Mae Cam 1 a Cham 2 yn cael eu trafod ar y cyd yn yr adran ganlynol oherwydd y dull tebyg a ddefnyddiwyd trwy gydol yr ehangu.

5.30 Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, mae holl leoliadau gofal plant Dechrau'n Deg naill ai'n lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog. Yn yr awdurdodau lleol hyn, rhoddir y ffocws ar wella cysondeb y Gymraeg a siaredir o fewn lleoliadau gofal plant yn ogystal â chynyddu adroddiadau tryloyw ar faint o Gymraeg a siaredir mewn

lleoliadau. Er enghraifft, mae Cyngor Ynys Môn wedi datblygu system raddio i nodi cynnydd ar hyd eu 'Taith Iaith' er mwyn cynyddu tryloywder a llywio dewis rhieni. Yn ogystal, adroddwyd bod hyn yn cynorthwyo lleoliadau i ddenu staff sy'n dymuno gwella eu Cymraeg a symud ymlaen ar eu taith Gymraeg. Mewn awdurdodau lleol eraill sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg (e.e. Ceredigion, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Gaerfyrddin), mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal plant yn cael eu dynodi fel rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, ond mae lleoliadau gofal plant cyfrwng Saesneg yn dal i chwarae rhan hollbwysig yn narpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg. Dywedodd yr awdurdodau lleol hyn eu bod yn canolbwyntio ar gynyddu cysondeb y Gymraeg a siaredir o fewn lleoliadau gofal plant, tra hefyd yn cynyddu nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n cymryd rhan yn Dechrau'n Deg i ateb y galw cynyddol. Nodwyd bod y twf hwn yn y galw yn deillio'n bennaf o ehangu i ardaloedd mwy Cymraeg fel rhan o Gam 1 a Cham 2.

5.31 Mewn un enghraifft, nid oedd awdurdod lleol a oedd wedi ehangu Dechrau'n Deg i ACEHI sy'n siarad Cymraeg yn bennaf, yn gallu darparu digon o leoedd cyfrwng Cymraeg i bob teulu a ofynnodd amdanynt. Y rheswm am hyn, yn ôl tîm Dechrau'n Deg yr awdurdod, oedd nad oedd amserlen gyfyngedig Cam 2 ar gyfer ehangu yn rhoi digon o amser iddynt ymgysylltu ac ehangu capasiti darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ehangu neu gerllaw. Dywedodd y cyfweleion priodol fod eu hawdurdod lleol yn gweithio mor galed â phosibl i addasu nifer y lleoedd a gynigir i ateb y galw.

5.32 Eglurodd awdurdodau lleol sydd â chyfran is o siaradwyr Cymraeg yn eu poblogaeth hefyd eu hymdrechion dwys i ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn cynnwys rhannu enghreifftiau o fesurau arloesol a gymerwyd i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg:

- Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ymgysylltu'n agos â'r Mudiad Meithrin[8] a grwpiau rhieni a babanod 'Ti a Fi'.
- Mae llawer o awdurdodau lleol yn rhedeg lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol. Mewn un awdurdod lleol gyda chyfran isel o siaradwyr Cymraeg, caeodd y cyngor leoliad gofal plant cyfrwng Saesneg yr

---

8 (Mudiad Meithrin) - Mudiad gwirfoddol sy'n arbenigo mewn addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

oedd yn ei redeg a'i ail-agor fel lleoliad cyfrwng Cymraeg ar safle ysgol cyfrwng Cymraeg. Roedd rhai o'r staff yn siarad Cymraeg yn barod ac mae staff newydd wedi'u cyflogi neu eu hyfforddi.

- Mae llawer o awdurdodau lleol sydd wedi symud i ddull “mynegi diddordeb” o gomisiynu yn credu bod hyn wedi lleihau rhwystrau gwirioneddol a chanfyddedig i ddarparwyr rhag cofrestru ar gyfer Dechrau'n Deg, gan gynnwys darparwyr cyfrwng Cymraeg. Y manteision penodol a grybwyllwyd oedd gostyngiad mewn prosesau ffurfiol a biwrocratiaeth, llinellau amser cynyddol hyblyg, ac ar adegau y gallu i ymuno a gadael darpariaeth Dechrau’n Deg yn ôl anghenion y lleoliadau (e.e. recriwtio a chadw staff, galw am leoedd). Gwelwyd hefyd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gofrestru lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg.
- Mae Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) rhai awdurdodau lleol yn mynnu bod gan bob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leoliad gofal plant dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg ar y safle. Roedd enghreifftiau eraill a grybwyllwyd yn cynnwys cynllun peilot o ddileu costau rhent lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar safleoedd ysgol.
- Sefydlodd rhai awdurdodau lleol bartneriaethau ffurfiol gyda sefydliadau addysg bellach i hyrwyddo cyrsiau gofal plant a gwneud y sector yn fwy deniadol, yn enwedig i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith.
- Mae rhai awdurdodau lleol wedi cyflogi aelod penodedig o'u tîm Dechrau'n Deg sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd a nifer y lleoliadau gofal plant Cymraeg a dwyieithog. Mae'r aelodau hyn o staff yn rhannu arferion gorau, yn gwella safonau, ac yn hyrwyddo manteision dod yn lleoliad cyfrwng Cymraeg.
- Mae rhai awdurdodau lleol yn cymryd rhan mewn rhaglenni buddsoddi cyfalaf i adeiladu lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd.

5.33 Y tu hwnt i'r mesurau arloesol a amlinellwyd uchod, amlygodd cyfweleion ffactorau ehangach i gefnogi cynyddu'r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg. Mae’r rhain yn cynnwys cyflwyno cynlluniau hirdymor i gynyddu recriwtio a chadw staff sy’n siarad Cymraeg yn y sector gofal plant, yn ogystal â chyllid penodol i gefnogi lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle mae llai o alw.

Ymhellach, tynnodd awdurdodau lleol sylw at yr angen i gynyddu nifer yr ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg er mwyn dangos i rieni lwybr clir ar gyfer addysg Gymraeg yn y dyfodol.

5.34 Mewn awdurdodau lleol sydd â llai o alw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gwneir ymdrechion i ysgogi galw am ofal plant cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol yn hyrwyddo ysgolion cynradd a lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg fel lleoliad ar gyfer gweithgareddau babanod a phlant bach a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mae gweithgareddau o'r fath yn aml yn ddwyieithog neu'n rhai cyfrwng Cymraeg, ac felly'n hyrwyddo manteision amlieithrwydd ac yn ymgyfarwyddo rhieni â'r lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg. Yr uchelgais yw y bydd hyn yn golygu bod rhieni yn fwy tebygol o ddewis darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plentyn. Dywedodd awdurdodau lleol y byddent yn falch o weld Llywodraeth Cymru yn rhannu arferion gorau ar sut i hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan o Dechrau'n Deg.

**Cydweithio â Byrddau Iechyd**

5.35 Nodwyd bod y cydweithio rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r ehangu Dechrau'n Deg yn llwyddiannus yng Ngham 1 a Cham 2. Mae'r adran hon yn trafod y bartneriaeth hon gan ganolbwyntio ar Gam 2, lle gwelwyd y berthynas hon fel penderfynydd hanfodol ar gyfer llwyddiant cyflenwi.

*Cam 1*

5.36 Wrth i Gam 1 ehangu pob un o'r pedair elfen o Dechrau'n Deg, chwaraeodd ymwelwyr iechyd rôl hollbwysig i hysbysu teuluoedd cymwys o'u hawl i Dechrau'n Deg a darparu cymorth iechyd gwell. Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd prinder ymwelwyr iechyd yn her ac ar brydiau, bu oedi wrth gyflwyno'r ehangu. Ni nodwyd unrhyw heriau ynghylch rhannu data neu wybodaeth a disgrifiwyd y berthynas yn gyffredinol fel un "gadarnhaol" a "chefnogol i'r ddwy ochr".

5.37 Ymhellach, pwysleisiodd Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru berthynas waith gadarnhaol yn ystod Cam 1, gan drafod gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr iechyd, Llywodraeth Cymru, ac awdurdodau lleol. Ystyriwyd bod y gweithgor hwn yn

werthfawr i adeiladu rhwydweithiau cadarnhaol a chanolbwyntio ar ddatblygiad y gweithlu ymwelwyr iechyd.

*Cam 2*

5.38 Gan mai dim ond ehangu'r elfen gofal plant Dechrau'n Deg yr oedd Cam 2 ac nad oedd yn cynnwys y cymorth ychwanegol gan ymwelwyr iechyd, nid oedd y mecanwaith traddodiadol o ymwelwyr iechyd yn hysbysu rhieni o'u cymhwysedd ar gyfer Dechrau'n Deg ac yn annog defnydd ar gael mor hawdd i awdurdodau lleol. Yn bwysig iawn, nid oedd gan fwyafrif yr awdurdodau lleol, yn enwedig yng ngogledd Cymru, unrhyw gytundebau rhannu data ar waith a fyddai wedi caniatáu i fyrddau iechyd rannu enwau, cyfeiriadau, a manylion eraill plant cymwys gyda'r awdurdodau lleol. Ceisiodd awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r her hon mewn tair ffordd:

- Cytunodd rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ar brotocol rhannu data yn y cyfnod cyn neu yn ystod gweithredu Cam 2. Er eu bod yn aml yn cymryd amser sylweddol i'w negodi, amlygwyd cytundebau llwyddiannus fel ffordd hynod effeithiol i awdurdodau lleol dderbyn y data sydd ei angen i nodi a chysylltu â theuluoedd cymwys. Disgwylir i'r rhain barhau i fod yn berthnasol wrth i wasanaethau Dechrau'n Deg gael eu darparu yn y dyfodol.
- Mewn awdurdodau lleol eraill na allent dderbyn data gan fyrddau iechyd, defnyddiodd tîm Dechrau'n Deg eu cysylltiadau proffesiynol agos ag ymwelwyr iechyd. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys rheolwyr Dechrau'n Deg a arferai weithio neu arwain tîm ymwelwyr iechyd yr awdurdod lleol, neu uwch ymwelwyr iechyd a arferai weithio fel ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg. Trwy gysylltiadau agos, hysbyswyd ymwelwyr iechyd am ardaloedd ehangu Cam 2 a chytunwyd i hysbysu rhieni cymwys am y gofal plant rhan-amser a ariennir sy'n cael ei gynnig, yn bennaf yn ystod ymweliadau arferol ond gyda rhai ymweliadau ychwanegol lle bo angen. Enghreifftiau arbennig o gryf o gydweithio oedd gweld ymwelwyr iechyd yn ffonio neu'n gwneud ymweliadau cartref ychwanegol a galwadau ffôn i deuluoedd cymwys a oedd wedi cael gwybod am y cynllun ond nad oeddent wedi manteisio ar y cynnig eto. Roedd hyn yn sicrhau bod teuluoedd agored i niwed yn cael eu gwneud yn gwbl

ymwybodol o'u cymhwysedd ac yn cael cynnig cymorth ychwanegol os oedd angen.

- Pe na bai modd rhannu data â byrddau iechyd neu bartneriaeth agos ag ymwelwyr iechyd, byddai awdurdodau lleol yn aml yn postio neu'n dosbarthu llythyrau â llaw i bob cartref yn yr ACEHI cymwys; fodd bynnag, nid oeddent yn gallu nodi a chysylltu'n unigol â rhieni oedd heb ymgysylltu â'r cynnig. Roedd awdurdodau lleol eraill yn dibynnu ar fyrddau iechyd yn cyflwyno gwahoddiadau wedi'u targedu i deuluoedd cymwys yn uniongyrchol, heb rannu manylion cyfeiriadau ag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mewn un enghraifft, disgrifiodd cyfweleion awdurdod lleol oedi o dros chwe mis rhwng y bwrdd iechyd yn derbyn y llythyrau gan dîm Dechrau'n Deg yr awdurdod lleol a'r llythyrau cyntaf yn cael eu hanfon i deuluoedd cymwys. Mewn achosion eraill, roedd awdurdodau lleol yn dibynnu mwy ar gyfryngau cymdeithasol, grwpiau cymunedol, posteri, a hysbysebion arloesol eraill i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun heb gymorth gan gydweithwyr iechyd. Roedd y rhain fel arfer yn cyfeirio rhieni at 'wiriwr cod post' i asesu eu cymhwysedd ar gyfer Dechrau'n Deg.

5.39 Roedd heriau gweinyddu Cam 2 Dechrau'n Deg heb i ymwelwyr iechyd fod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithgaredd, neu mewn rhai achosion, heb i fyrddau iechyd rannu data, yn bwnc a godwyd gan bob awdurdod lleol. Awgrymodd y cyfweleion y dylai Llywodraeth Cymru, wrth ehangu yn y dyfodol, gefnogi'r gwaith o feithrin y berthynas rhwng byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn uniongyrchol. Awgrym arall, er ei fod yn cael ei gydnabod fel un heriol i'w weithredu, oedd sefydlu cytundeb rhannu data Cymru gyfan at ddibenion Dechrau'n Deg a gwasanaethau blynyddoedd cynnar cysylltiedig, os oedd hynny'n ymarferol.

**Aliniad gyda pholisïau cyfagos**

5.40 Wrth drafod anghenion teuluoedd a'r gwahaniaethau rhwng darpariaeth Cam 1 a Cham 2, roedd cyfweleion awdurdod lleol yn trafod yn aml y ffordd y mae Dechrau'n Deg yn cyd-fynd â pholisïau cyfagos ar gyfer datblygiad y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Rhannodd yr awdurdod lleol farn ac adborth rhieni a lleoliadau gofal plant.

5.41 O safbwynt awdurdodau lleol, mae'r graddau y mae'r timau mewnol o fewn polisi'r blynyddoedd cynnar wedi'u halinio neu'n cydweithredu yn amrywio rhwng

awdurdodau lleol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae'r rhai sy'n gweithio ar Dechrau'n Deg yn rhan o'r un tîm ac yn gweithio yn yr un gofod â'r rhai sy'n gweithio ar bolisïau cyfagos fel Teuluoedd yn Gyntaf, Cynnig Gofal Plant Cymru, timau anghenion dysgu ychwanegol, neu ymwelwyr iechyd. Awgrymodd cyfweleion fod hyn yn caniatáu cydweithio agos a meddwl strategol cydgysylltiedig rhwng pob tîm ac unigolyn. Eglurodd cyfweleion eraill fod eu timau'n gweithio ar wahân i eraill sy'n gweithio ar bolisi blynyddoedd cynnar ac roeddent yn cydnabod pwysigrwydd osgoi dyblygu gwasanaethau gan dimau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, yn ogystal â gwerth rhannu gwybodaeth yn gyflym ac yn effeithiol. Yn ogystal, mae awdurdodau lleol yn credu y gallai gweithdrefnau adrodd Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant gael eu cysoni'n agosach.

5.42 O safbwynt lleoliadau gofal plant, awgrymodd cyfweleion eu bod yn cael lefelau sylweddol uwch o gymorth ac arweiniad gan awdurdodau lleol wrth ddarparu Dechrau'n Deg nag wrth ddarparu'r Cynnig Gofal Plant. Nodwyd gwahaniaethau hefyd rhwng y cyfraddau gwahanol a delir fesul lle i Dechrau'n Deg gan awdurdodau lleol ac i'r Cynnig Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru. Ymhellach, nododd y lleoliadau gofal plant, mewn lleoliadau â chapasiti cyfyngedig oherwydd cyfyngiadau gofod neu staff, fod hyn yn golygu bod Dechrau'n Deg yn cystadlu am leoedd mewn lleoliadau yn erbyn cynlluniau eraill, yn enwedig y Cynnig Gofal Plant.

5.43 Yn seiliedig ar adborth gan rieni, awgrymodd cyfweleion awdurdod lleol y gall y newid o Dechrau'n Deg i'r Cynnig Gofal Plant unwaith y bydd y plentyn yn troi'n dair oed ddrysu rhieni, o ystyried yr ysgogwyr polisi a meini prawf cymhwysedd gwahanol. Roedd y pwyntiau dryswch yn canolbwyntio ar sesiynau gofal plant byrrach Dechrau'n Deg, o'i gymharu â'r diwrnodau llawn a gynigir gan y Cynnig Gofal Plant, a diffyg darpariaeth Dechrau'n Deg y tu allan i amser tymor. Dywedodd awdurdodau lleol sy'n ffinio â Lloegr fod rhai rhieni'n ansicr ynghylch y gwahaniaeth rhwng meini prawf cymhwysedd a model cyflenwi Dechrau'n Deg a model gofal plant Lloegr, yn enwedig o ystyried bod cyhoeddiad i ehangu gofal plant yn Lloegr yn cyd-fynd â chyflwyno Cam 2. Hefyd, nododd y cyfweleion y risg y byddai rhai plant sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg ond yn anghymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant neu'n gorfod newid lleoliad gofal plant pan fyddant yn troi'n dair oed pan nad yw lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg yn cynnig y Cynnig Gofal Plant. Nodwyd y gallai hyn achosi aflonyddwch i rieni a phlant.

**Cyllid**

5.44 Mae'r adran hon yn trafod y cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg fesul cam. Trafododd y cyfweleion ystod o ystyriaethau megis clustnodi, costau staffio, a heriau ariannol a ragwelir yn y dyfodol, yn ogystal â safbwyntiau sy'n benodol i Gam 1 a Cham 2.

*Cyffredinol*

5.45 Ar y cyfan, pwysleisiodd awdurdodau lleol fod cyllid yn ddigonol ac nad oedd llawer o gyfyngiadau ariannu ar gyflwyno'r ehangu. Serch hynny, dywedodd awdurdodau lleol y dylai eglurder ynghylch cyllid fod wedi cael ei sefydlu'n gynharach. Ymhellach, eglurodd cyfweleion pe bai cyllid wedi'i gyhoeddi a'i ddarparu dros gyfnod hwy o amser, byddai hyn wedi galluogi awdurdodau lleol i ddilyn strategaethau mwy arloesol a sbarduno buddsoddiad cyfalaf hirdymor mewn lleoliadau gofal plant presennol ac yn y dyfodol mewn ardaloedd â phrinder lleoedd.

5.46 Dywedodd timau Dechrau'n Deg awdurdodau lleol eu bod yn teimlo'n anghyfforddus wrth gynllunio'n strategol ac yn y tymor hir, o ystyried y diffyg sicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol. Er enghraifft, ystyriwyd bod yr ansicrwydd hwn yn atal awdurdodau lleol rhag cyflogi staff ychwanegol neu ychwanegu mwy o leoedd gofal plant rhag ofn y byddai cyllid yn lleihau yn y dyfodol. Yn ôl awdurdodau lleol, gallai hyn hefyd arwain at ddiswyddo staff ac ymdrechion dilynol i ailgyflogi unigolion mewn achosion o fylchau rhwng cyfnodau a ariennir.

5.47 Ymhellach, mynegodd awdurdodau lleol farn gymysg ar fanteision ac anfanteision neilltuo cyllideb Dechrau'n Deg. Croesawodd y mwyafrif o awdurdodau lleol glustnodi arian, gan ddadlau ei fod wedi helpu i sicrhau bod cyllidebau Dechrau'n Deg yn cael eu gwario'n gyfan gwbl ar wasanaethau Dechrau'n Deg, a oedd yn rhoi mwy o sicrwydd o ran cyflenwi rhaglenni, ac felly'r sector gofal plant a rhieni. Fodd bynnag, dadleuodd lleiafrif sylweddol o awdurdodau lleol fod clustnodi arian yn cyfyngu ar eu gallu i fuddsoddi'n strategol mewn gwasanaethau a chapasiti gweinyddol.

*Cam 1*

5.48 Teimlai cyfweleion awdurdod lleol fod y cyllid a ddarparwyd ar gyfer ehangu Cam 1 Dechrau'n Deg yn ddigonol. Nodwyd ei fod yn addas ar gyfer ariannu'r

gwasanaethau a’r lleoedd sydd eu hangen, er nad oedd yn caniatáu ehangu capasiti’r sector gofal plant yn sylweddol.

*Cam 2*

5.49 Gan fyfyrio ar Gam 2, barnodd cyfweleion awdurdod lleol hefyd fod y cyllid a ddarparwyd ar gyfer ail gam yr ehangu yn ddigonol, ond tynnwyd sylw at rai cyfyngiadau yn ogystal. Amlinellodd y cyfweleion mai prin oedd yr amser a roddwyd i awdurdodau lleol fuddsoddi yng nghapasiti’r sector gofal plant mewn ardaloedd ehangu neu i recriwtio staff gweinyddol ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol oherwydd amserlenni tynn Cam 2A a 2B a’r oedi cyn cymeradwyo eu cynlluniau ehangu. Roedd amserlenni heriol o’r fath, yn ogystal ag achosion o anhawster i gael gafael ar ddata byrddau iechyd ar deuluoedd cymwys, yn golygu bod disgwyl i rai awdurdodau lleol gymryd mwy o amser i gyrraedd eu targedau. Esboniodd rhai cyfweleion eu bod yn disgwyl tanwariant sylweddol o gyllidebau wedi’u clustnodi ar gyfer ehangu Cam 2, a fyddai wedyn yn cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Yn lle hynny, teimlai awdurdodau lleol y byddai cyllidebu tymor hwy (e.e. trwy ddyrannu cyllid fesul dwy, tair neu bedair blynedd) yn caniatáu gwell canlyniadau ac yn cynorthwyo cynllunio effeithlon, yn hytrach na cheisio gwario cyllidebau yn gyflym a heb weledigaeth strategol wybodus.

5.50 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grantiau untro o hyd at £50,000 i awdurdodau lleol ym mis Mai 2023, i helpu i fynd i’r afael ag unrhyw heriau penodol a wynebir gan awdurdodau lleol wrth gyflenwi Cam 2. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion oedd 9 Mehefin 2023. Fodd bynnag, dywedodd rhai awdurdodau lleol fod cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru neu eu hawdurdod lleol i’w cynlluniau i wario’r arian hwn wedi dod i rym yn rhy hwyr ar gyfer eu cynllun arfaethedig, yn enwedig o safbwynt cyflogi staff newydd.

# 6. Casglu data ac adrodd

### Profiadau o gasglu a dychwelyd data

6.1 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar brofiadau awdurdodau lleol o gasglu, coladu ac adrodd ar ddata monitro ar gyfer Cam 1 a Cham 2 yr ehangu. Drwy gydol y ddau gam, roedd disgwyl i awdurdodau lleol adrodd ar ddata monitro i Lywodraeth Cymru bob mis. O ystyried y gwahaniaethau rhwng y ddau gam ehangu, roedd y ceisiadau am ddata yn wahanol fel a ganlyn:

- Yng Ngham 1, y data y gofynnwyd amdano oedd nifer y buddiolwyr unigryw a gyrhaeddwyd, nifer y lleoedd gofal plant a gynigiwyd, a nifer y lleoedd gofal plant iaith Gymraeg y gofynnwyd amdanynt ac y manteisiwyd arnynt. Roedd disgwyl hefyd i awdurdodau lleol adrodd ar eu hyder i gyflawni eu targedau, unrhyw lacio o ofynion gwasanaeth yr oeddent wedi'u mabwysiadu (e.e. rheolwr lleoliad gofal plant yn gweithio tuag at Lefel 5, lleoliadau gofal plant y tu hwnt i bellter gwthio pram oddi wrth deuluoedd cymwys), a sut yr oeddent yn hyrwyddo manteision amlieithrwydd. Unwaith y cyrhaeddodd awdurdodau lleol eu targed ar gyfer Cam 1, cafodd yr adroddiadau data eu hintegreiddio i adroddiadau craidd Dechrau'n Deg – a gesglir unwaith y tymor.
- Yng Ngham 2, roedd disgwyl i awdurdodau lleol gasglu a chyflwyno adroddiadau misol ar y nifer cronnol o leoedd gofal plant a gynigiwyd, y nifer cronnol o leoedd gofal plant y manteisiwyd arnynt a ddarparwyd trwy gyfrwng y Gymraeg, hyder awdurdodau lleol i gyrraedd y nifer targed o blant. Hefyd, roedd disgwyl iddynt gwblhau meysydd naratif testun agored ar eu cynnydd, eu llwyddiannau a'u heriau.

6.2 Mynegodd awdurdodau lleol ddealltwriaeth o'r rhesymau y tu ôl i gasglu data misol a pham roedd rhai dangosyddion data yn cael eu casglu. Yn benodol, roeddent yn cydnabod defnyddioldeb y data hwn ar gyfer uwch swyddogion a gweinidogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mynegodd mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol eu barn bod casglu data misol ar gyfer Cam 2 yn rhy aml. Y rhesymau y tu ôl i'r farn hon oedd naill ai ei fod yn rhoi gormod o straen ar staff gweinyddol awdurdodau lleol neu oherwydd bod amserlenni'r sector gofal plant yn fwy addas ar gyfer casglu data cywir bob tymor. Pwysleisiodd awdurdodau lleol fod staff yn croesawu'r broses

o drosglwyddo adroddiadau data Cam 1 i adroddiadau craidd tymhorol, unwaith y byddai’r targedau perthnasol wedi’u cyflawni.

6.3 Nododd awdurdodau lleol brofiadau amrywiol o ran casglu data, yn dibynnu ar hyblygrwydd ac addasrwydd eu systemau prosesu data. Esboniodd rhai timau Dechrau’n Deg fod eu meddalwedd mewnol a’u systemau monitro yn gwneud y gwaith o gasglu data ac adroddiadau yn gyflym ac yn syml, gan nodi eu bod yn gallu newid fformatau data neu gael gwahanol fesurau allbwn ar fyr rybudd. Amlinellodd awdurdodau lleol eraill anawsterau yn gysylltiedig â systemau prosesu data hen ffasiwn ac anhyblyg a oedd angen llawer iawn o fewnbynnu a phrosesu data â llaw. Soniodd rhai cyfweleion am ymdrechion i foderneiddio systemau presennol neu sefydlu llwyfannau mewnol newydd; fodd bynnag, roedd hyn yn aml yn gysylltiedig ag oedi. O ganlyniad, rhybuddiodd awdurdodau lleol y byddai mwy o rybudd ymlaen llaw i unrhyw ehangu a gofynion adrodd yn y dyfodol yn caniatáu iddynt fuddsoddi mewn diweddaru systemau, a hyfforddi staff i'w defnyddio.

6.4 Gan dynnu sylw at adrodd ar raglenni cyfagos i Dechrau’n Deg, nododd rhai awdurdodau lleol bryderon ynghylch ffurflenni data sy’n gorgyffwrdd ond sydd eto mewn fformatau gwahanol. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys y baich ar leoliadau gofal plant wrth gasglu data ar blant â lleoedd a ariennir drwy Dechrau’n Deg craidd, camau ehangu Dechrau’n Deg, neu’r Cynnig Gofal Plant. Arweiniodd hyn at lwyth gwaith cynyddol i leoliadau gofal plant a rhai awdurdodau lleol.

**Diffiniad o gynigion a'r nifer sy'n manteisio arnynt yng Ngham 2**

6.5 Roedd y model gofal plant yn unig a gyflwynwyd o dan Gam 2 angen dull newydd o gasglu data, gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar nifer y cynigion a wnaed i deuluoedd a nifer y lleoedd gofal plant y manteisiwyd arnynt heb fewnbwn gan ymwelwyr iechyd. Roedd awdurdodau lleol yn croesawu’r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â nhw ar addasrwydd y diffiniadau o gynigion a’r nifer oedd yn manteisio arnynt, gan nodi bod esboniadau drwy gydol cam gweithredu Cam 2 yn ddefnyddiol.

Tybiwyd bod ‘cynnig’ gofal plant wedi cael ei wneud o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae ymwelydd iechyd generig, tîm iechyd ehangach neu aelod o staff yr awdurdod lleol yn hysbysu teulu eu bod yn gymwys ar gyfer darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg.
- Mae rhieni yn cofrestru neu'n gwneud cais ar blatfformau ar-lein ar ôl sganio codau QR neu ymweld â phlatfformau awdurdodau lleol yn annibynnol i wirio eu cymhwysedd ar gyfer gofal plant Dechrau'n Deg.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod p'un a ydynt yn gymwys ar gyfer darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg mewn ffordd wedi'i thargedu o fewn ardaloedd ehangu trwy anfon taflenni, cardiau post, negeseuon testun, neu alwadau ffôn.
- Mae awdurdodau lleol yn cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus helaeth o gyrhaeddiad estynedig Dechrau'n Deg; er enghraifft, trwy bostiadau cyfryngau cymdeithasol, gwybodaeth ar wefannau awdurdodau lleol, digwyddiadau allgymorth cymunedol, yn ogystal â dibynnu ar ledaenu gwybodaeth ar lafar. Roedd awdurdodau lleol o'r fath yn cyfrif bod cynigion wedi cyrraedd 100 y cant, gan dybio bod pob teulu'n debygol o fod â mynediad at y wybodaeth angenrheidiol.

Tybiwyd y manteisiwyd ar y lle gofal plant o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Derbyniwyd y cynnig o ofal plant gan y teulu, p'un a yw'r plentyn wedi mynychu gofal plant wedyn ai peidio.
- Mewn mannau eraill, diffiniwyd y nifer a oedd yn manteisio ar y cynllun fel unrhyw blentyn a fynychodd o leiaf un sesiwn mewn lleoliad gofal plant ar ôl cofrestru.

6.6 Ar draws cyfweliadau â thimau Dechrau'n Deg ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru, adroddwyd bod diffiniadau gwahanol yn cael eu defnyddio. Wrth drafod cynigion ar gyfer lleoedd gofal plant, nododd awdurdodau lleol yn aml fod y diffiniad a ddefnyddir ar gyfer adrodd yn dibynnu ar y gydberthynas leol â byrddau iechyd. Roedd awdurdodau lleol a oedd heb fynediad at ddata iechyd ac felly ddim yn ymwybodol o fanylion cyswllt plant yn dibynnu gan amlaf ar lythyrau a thaflenni, neu'n cyfrif nifer y ffurflenni cofrestru a gwblhawyd. Ymhlith awdurdodau lleol a oedd yn cydweithio'n agos ag ymwelwyr iechyd, roedd cynigion naill ai'n cael eu

gwneud yn uniongyrchol yn ystod ymweliadau iechyd ac yn cael eu hadrodd yn ôl i'r awdurdod lleol, neu drwy gyfrif ceisiadau am leoedd gofal plant.

6.7 Wrth drafod mesur y nifer oedd yn manteisio ar gynlluniau Dechrau'n Deg, diffiniodd y rhan fwyaf o gyfweleion awdurdod lleol hyn fel y nifer a oedd yn mynychu lleoliad gofal plant am y tro cyntaf. Diffiniodd yr awdurdodau lleol eraill y nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth fel teuluoedd sy'n derbyn y cynnig o ofal plant; er enghraifft, trwy gofrestru drwy'r porth ar-lein neu'n uniongyrchol gyda'r lleoliadau gofal plant. Ymhellach, dywedodd rhai awdurdodau lleol eu bod wedi newid eu dull o gyfrif y nifer sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn ystod cyfnod cyflenwi Cam 2. Yn gyffredinol, mynegwyd ffafriaeth o blaid cyfrif nifer y plant a oedd yn manteisio ar y lleoliad ar ôl i'r plant fynychu'r lleoliad gofal plant, gan fod hyn i'w weld yn cynyddu cywirdeb ac yn mesur yr ymyriad a dderbyniwyd gan deuluoedd drwy wasanaethau Dechrau'n Deg.

6.8 O ganlyniad, disgrifiwyd cymharu ffurflenni data ar draws awdurdodau lleol fel "anodd" ac "anghyson", a dylid bod â diffiniadau clir a phriodol wrth adrodd ar y data.

**Awgrymiadau ar gyfer casglu data yn y dyfodol**

6.9 Nododd y cyfweleion awdurdod lleol nifer o awgrymiadau ar sut i wella casglu data a monitro yn y dyfodol:

- **Symud i adroddiadau data tymhorol:** Galwodd y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol am i ddata monitro gael ei adrodd i Lywodraeth Cymru bob tymor yn hytrach na phob mis.
- **Cynyddu cysondeb categorïau**: Galwodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol am ddiffiniadau mwy cyson ac unedig o gynigion gofal plant a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o ddiffiniadau.
- **Sefydlu system ddata genedlaethol**: Lleisiodd rhai awdurdodau lleol eu barn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu system ddata Cymru gyfan ar gyfer ehangu Dechrau'n Deg yn y dyfodol. Yn benodol, awgrymwyd y dylai hyn gynnwys gwiriwr cod post canolog, porth unedig ar gyfer gwneud cais am leoedd gofal plant i rieni, yn ogystal â system i awdurdodau lleol gofnodi data.

Er enghraifft, awgrymodd awdurdodau lleol y gallai hyn fod yn seiliedig ar y system Dewis Cymru a ddefnyddir gan leoliadau gofal plant ar gyfer y Cynnig Gofal Plant.

- **Cynyddu lefel manylder ffurflenni data**: Eglurodd sawl awdurdod lleol eu bod yn casglu dangosyddion ychwanegol i'r ffurflenni sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Byddai casglu data mwy manwl a chyson ledled Cymru hefyd yn cael ei hwyluso drwy amseroedd arwain hwy ar gyfer cyfnodau ehangu yn y dyfodol. Byddai hyn yn galluogi awdurdodau lleol i ddiweddaru eu systemau prosesu data cyn dechrau eu cyflwyno.
- **Darparu adborth cyson**: Gofynnodd rhai awdurdodau lleol am fwy o adborth ar y ffigurau a adroddwyd ganddynt a sicrwydd bod data a fformat mewnbynnu yn gywir.

## 7. Llwyddiannau

7.1 Gofynnwyd i'r cyfweleion nodi llwyddiannau eu hawdurdod lleol o ran ehangu Dechrau'n Deg fesul cam. Mae'r rhain wedi'u categoreiddio yn ôl llwyddiannau sydd naill ai'n berthnasol i ddau gam ehangu Dechrau'n Deg, sy'n berthnasol i Gam 1 yn unig, neu'n berthnasol i Gam 2.

*Cyffredinol*

7.2 Mynegodd pob un o'r cyfweleion awdurdod lleol falchder yn y gwahaniaeth y mae eu gwaith, y sector gofal plant, a Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i fywydau plant a theuluoedd drwy ehangu gwasanaethau Dechrau'n Deg i ardaloedd daearyddol newydd. Disgrifiodd y cyfweleion yr adborth cadarnhaol a gawsant gan deuluoedd a lleoliadau gofal plant fel dangosyddion allweddol o'u llwyddiant.

*Cam 1*

7.3 I lawer o awdurdodau lleol, y cyflawniad allweddol oedd rhagori ar eu nifer targed o blant sy'n derbyn gwasanaethau Dechrau'n Deg drwy'r ehangu. Dywedodd 20 o 22 awdurdod lleol yng Nghymru eu bod wedi cyrraedd eu targed erbyn diwedd mis Mawrth 2023, gan gynnwys 18 wedi rhagori ar eu targedau. Ledled Cymru, rhagorwyd ar y targed o 27 y cant.

7.4 Yn ogystal â chyflawni neu ragori ar eu targedau, dewisodd rhai awdurdodau lleol dynnu sylw at y systemau data newydd sydd wedi'u datblygu neu eu diweddaru, a sefydlwyd i hwyluso cam cyntaf yr ehangu. Yn aml, cynlluniwyd y rhain i gynyddu effeithlonrwydd ar gyfer llwythi achosion uwch ac i wahanu adroddiadau Cam 1 oddi wrth Dechrau'n Deg craidd, yn ôl yr angen. Tynnodd awdurdodau lleol eraill sylw at eu hymdrechion llwyddiannus i annog lleoliadau gofal plant newydd i gymryd rhan yn Dechrau'n Deg, gyda phwyslais arbennig ar lwyddiannau'r lleoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

*Cam 2*

7.5 Pwysleisiodd awdurdodau lleol a Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru fel ei gilydd eu cyflawniad o ran darparu miloedd yn fwy o leoedd gofal plant Dechrau'n Deg ledled Cymru. Er mwyn addasu i ehangu cyflym y ddarpariaeth gofal plant drwy Gam 2, cyflwynodd nifer o awdurdodau lleol brosesau ac offer newydd yn llwyddiannus. Nodwyd y canlynol fel llwyddiannau arbennig:

- **Platfformau cyfathrebu arloesol**: Sefydlodd tîm Dechrau'n Deg un awdurdod lleol sianeli Microsoft Teams unigol gyda phob lleoliad gofal plant cofrestredig yn darparu gofal plant Dechrau'n Deg. Mae'r rhain yn cynnwys mannau penodol ar gyfer cynllunio, presenoldeb, cyllid a mewnbynnu data. Mae manteision y system hon yn cynnwys cydweithwyr perthnasol yn gallu cael gafael ar yr holl wybodaeth angenrheidiol mewn un lle, pontio haws i gydweithwyr awdurdod lleol newydd, cyfathrebu haws â lleoliadau gofal plant, a sgyrsiau mwy strwythuredig drwy ddefnyddio'r sianeli dynodedig ar gyfer gwahanol bynciau.
- **Digideiddio prosesau ymgeisio a thalu**: Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi adeiladu ffurflenni cais ar-lein newydd a gwirwyr cod post i rieni eu defnyddio wrth wneud cais am Dechrau'n Deg. Mae llawer hefyd wedi mabwysiadu mecanweithiau talu newydd, gan symleiddio'r systemau a ddefnyddir i dalu lleoliadau gofal plant. Mewn sawl awdurdod lleol, mae'r broses hon yn awtomataidd ac felly mae wedi lleihau faint o ddata sy'n cael ei fewnbynnu â llaw gan aelodau staff awdurdodau lleol. Gellir, a dylid, parhau i ddefnyddio systemau digidol newydd o'r fath mewn ehangiadau yn y dyfodol.
- **Ceisiadau symlach ar gyfer lleoliadau gofal plant:** Mae llawer o awdurdodau lleol wedi symleiddio eu prosesau wrth gaffael a chymeradwyo lleoliadau gofal plant i gynnig lleoedd Dechrau'n Deg. Disgrifiwyd hyn fel symudiad o systemau caffael cymhleth a hirfaith i ddatganiadau mwy syml o ddiddordeb neu systemau caffael deinamig. Er bod angen i leoliadau gofal plant ddal i ddangos eu bod yn bodloni safonau Dechrau'n Deg, mae'r dull symlach yn lleihau'r rhwystrau o ran ymuno â'r ddarpariaeth, a oedd wedi atal rhai lleoliadau gofal plant rhag ymuno yn y gorffennol. Mewn nifer fach o awdurdodau lleol, roedd hyn yn golygu bod pob lleoliad gofal plant yn yr awdurdod lleol bellach wedi'u cofrestru fel lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg cymeradwy sy'n rhoi'r dewis a'r hyblygrwydd gorau posibl i rieni wrth ddewis lleoliad neu i ofyn am le Dechrau'n Deg yn y lleoliad lle mae'r plentyn eisoes yn mynychu.
- **Mwy o ymgysylltu â lleoliadau gofal plant**: Llwyddodd mwyafrif timau darparu Dechrau'n Deg i gynyddu eu hymgysylltiad â lleoliadau gofal plant newydd a phresennol. Mae hyn wedi arwain at fwy o leoliadau gofal plant preifat yn mynegi diddordeb mewn ymuno â Dechrau'n Deg ac yn cyfleu adborth bod y

canllawiau a'r ymweliadau gan yr awdurdod lleol yn cael eu hystyried yn gefnogol.

# 8. Heriau

8.1 Gofynnwyd hefyd i'r cyfweleion drafod unrhyw heriau yr oeddent yn eu hwynebu wrth ehangu Dechrau'n Deg. Mae'r adran ganlynol yn trafod yn gyntaf yr heriau sy'n berthnasol i'r ddau gam, cyn amlygu heriau sy'n benodol i bob cam o'r ehangu.

*Cyffredinol*

8.2 Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio heriau o ran cynllunio a chyflenwi ehangu Dechrau'n Deg, bu rhai awdurdodau lleol yn trafod heriau sy'n deillio o'r model a dargedir yn ddaearyddol, gan arwain at gwestiynau a beirniadaeth aml gan rieni mewn teuluoedd anghymwys neu leoliadau gofal plant y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Eglurodd awdurdodau lleol fod hyn yn amlygu ei hun drwy alwadau ffôn gan rieni anfodlon, yn enwedig lle mai dim ond rhai rhannau o gymdogaeth oedd yn gymwys. Mae awdurdodau lleol wedi mynd i'r afael â'r her hon mewn gwahanol ffyrdd; er enghraifft, drwy gyflogi swyddogion allgymorth sydd wedi'u neilltuo i gysylltu â theuluoedd a lleoliadau gofal plant i gynorthwyo timau cyflenwi Dechrau'n Deg. Yn Rhondda Cynon Taf, nodwyd bod y system gyflenwi gyffredinol Dechrau'n Deg sy'n seiliedig ar anghenion yn datrys heriau'r model a dargedir yn ddaearyddol.

8.3 Nododd awdurdodau lleol hefyd bwyntiau pellach a oedd yn berthnasol i ddau gam yr ehangu, megis:

- **Recriwtio a chadw staff gofal plant cymwysedig**: Tynnodd llawer o awdurdodau lleol sylw at y diffyg staff sy'n gweithio yn y sector gofal plant, gan nodi y dylai tâl ac amodau yn y sector fod yn ffocws strategol i Lywodraeth Cymru er mwyn cynyddu recriwtio a chadw staff. Yn ogystal, awgrymodd llawer o gyfweleion awdurdod lleol fod diffyg staff â chymwysterau digonol ar lefelau ymarferwyr (Lefel 3) a rheolwyr (Lefel 5) sy'n angenrheidiol i fodloni safonau Dechrau'n Deg. Adroddwyd hefyd bod heriau gyda chydnabod cymwysterau o Loegr neu'r Alban.
- **Diffyg capasiti gofal plant mewn ardaloedd difreintiedig**: Roedd awdurdodau lleol yn cydnabod yr her o ehangu Dechrau'n Deg i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig nad ydynt eto wedi'u cynnwys yn Dechrau'n Deg, o ystyried y diffyg aml o gapasiti gofal plant ychwanegol. Ceisiodd awdurdodau lleol ddatrys hyn gyda grantiau cyfalaf bach i gynyddu capasiti o fewn

lleoliadau gofal plant presennol. Nodwyd hyn fel pryder penodol mewn ardaloedd gwledig. Nid oes fawr o gymhellion yno i ddarparwyr preifat agor lleoliadau gofal plant ychwanegol, oherwydd y diffyg sicrwydd refeniw a chyllid hirdymor. Ar y cyfan, esboniodd y cyfweleion, mewn ardaloedd â diffyg difrifol o gapasiti gofal plant, y bydd angen llawer o amser ac adnoddau ariannol i adeiladu lleoliadau gofal plant newydd naill ai fel rhan o ehangu yn y dyfodol, neu cyn cynllunio i ehangu gofal plant o ansawdd uchel i bob plentyn 2 oed.

- **Covid-19 yn effeithio ar ddatblygiad plant**: Bu rhai cyfweleion yn trafod sut mae lleoliadau gofal plant yn wynebu heriau wrth ofalu am blant y mae COVID-19 wedi effeithio'n andwyol ar eu datblygiad. Dywedodd lleoliadau gofal plant wrth awdurdodau lleol y ceir sefyllfa yn aml lle nad yw anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod hyd nes fydd y plant yn dechrau derbyn gofal plant. Ar draws nifer o awdurdodau lleol, mae ymdrechion yn cael eu gwneud ar hyn o bryd i gynnig hyfforddiant ychwanegol i leoliadau gofal plant, gwella cyfathrebu rhwng lleoliadau ac ymwelwyr iechyd, neu gysylltu teuluoedd â gwasanaethau cymorth eraill (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf).
- **Pryderon ynghylch model cyflenwi anaddas**: Amlygodd rhai cyfweleion fod nifer o ddarparwyr gofal plant preifat yn credu bod darpariaeth Dechrau'n Deg sesiynol (2.5 awr y dydd, 39 wythnos y flwyddyn) yn fodel busnes anghynaliadwy ar gyfer eu lleoliad gofal plant. Roedd lleoliadau'n dweud mai dim ond drwy gynhyrchu refeniw ychwanegol gan rieni sy'n talu'n breifat neu godi tâl am oriau ychwanegol ar gyfer plant Dechrau'n Deg y gellir aros yn hyfyw yn economaidd.
- **Dim digon o eglurder ar weithio trawsffiniol**: Mynegodd awdurdodau lleol ddryswch ynghylch y prosesau ar gyfer gweithio trawsffiniol rhwng gwahanol awdurdodau lleol, er enghraifft, lle'r oedd rhieni'n byw yn agos at ffin awdurdod lleol neu'n byw mewn ardal wahanol i'w gweithle. Mynegodd rhai awdurdodau lleol sy'n ffinio â Lloegr ddryswch hefyd ynghylch y cydweithio â lleoliadau gofal plant yn Lloegr a oedd yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n creu ansicrwydd i awdurdodau lleol a rhieni.

- **Systemau prosesu data lleol hen ffasiwn**: Adroddodd rhai timau Dechrau'n Deg a Blynyddoedd Cynnar awdurdodau lleol broblemau a oedd yn deillio o systemau digidol a data hen ffasiwn. Roedd hyn yn aml yn arwain at gyflogi staff gweinyddol ychwanegol i fewnbynnu cofrestriadau, prosesu data, a chynhyrchu llythyrau cynnig â llaw i rieni yn y ddau gam o'r ehangu.
- **Baich adroddiadau data misol**: Pwysleisiodd mwyafrif yr awdurdodau lleol y baich o adrodd ar ddata ar wahân ar Gam 1 a Cham 2 bob mis i Lywodraeth Cymru fel her allweddol a wynebwyd ganddynt wrth gyflenwi'r ehangu graddol. Teimlwyd nad oedd adroddiadau misol yn cyd-fynd â natur dymhorol y lleoliadau gofal plant, ac nad yw'r elfennau adrodd naratif yn newid fawr mewn cyfnod mor fyr. Eglurodd Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru hefyd fod yr adnoddau angenrheidiol ar gyfer adrodd ar ddata ar gael yn haws mewn awdurdodau lleol mwy, tra bod yr un aelodau o staff yn aml yn gyfrifol am ffrydiau gwaith lluosog o fewn awdurdodau lleol llai.

*Cam 1*

8.4 Nododd awdurdodau lleol a Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru ystod gyfyngedig o heriau penodol i ymwelwyr iechyd wrth gyflenwi Cam 1:

- **Recriwtio a chadw ymwelwyr iechyd**: Nododd ystod o gyfweleion bryderon ynghylch prinder ymwelwyr iechyd ar draws awdurdodau lleol lluosog yng Nghymru, gan achosi oedi ar adegau wrth gyflenwi Cam 1. Y rhesymau a nodwyd oedd recriwtio isel a llawer o weithwyr proffesiynol yn gadael y sector yn gyffredinol, yn ogystal ag ymwelwyr iechyd yn aml yn weithlu benywaidd oedd yn heneiddio, yn gynyddol yn gweithio'n rhan-amser neu'n gadael y sector. Crybwyllwyd rhesymau pellach dros heriau recriwtio lle'r oedd sawl awdurdod lleol yn cystadlu dros yr un aelodau o'r gweithlu mewn ardaloedd ar y ffin rhwng awdurdodau lleol.
- **Llwyth achosion ymwelwyr iechyd:** Nodwyd un her allweddol arall yn benodol i Dechrau'n Deg craidd, yn ogystal ag ehangu Cam 1, yn y llwyth achosion uchel cyffredinol gan ymwelwyr iechyd, a oedd yn rhoi pwysau ar y gweithlu. Nododd y cyfweliadau ganlyniadau anfwriadol i recriwtio ymwelwyr iechyd penodol Dechrau'n Deg yn hytrach nag ymwelwyr iechyd generig. Dywedwyd bod yr olaf

yn cario llwythi achosion uwch fyth, gan arwain at ganfyddiadau o “wasanaeth ymwelwyr iechyd dwy haen”.

- **Dyrannu cyllid drwy awdurdodau lleol:** Eglurodd nifer fach o’r cyfweleion fod cyllid Dechrau’n Deg yn cael ei ddosbarthu’n lleol drwy’r awdurdod lleol priodol. Serch hynny, o ystyried natur gyffredinol byrddau iechyd sy’n rhychwantu awdurdodau lleol lluosog yn ogystal â’u cynllunio strategol lefel uwch, nodwyd y gallai cyllid ar gyfer ymwelwyr iechyd sy’n cael ei reoli gan awdurdodau lleol yn hytrach na byrddau iechyd fod wedi achosi tensiynau.

*Cam 2*

8.5 Pwysleisiodd awdurdodau lleol a swyddogion Llywodraeth Cymru yr heriau canlynol wrth gyflenwi Cam 2:

- **Diffyg rhannu data:** Profodd nifer fawr o awdurdodau lleol heriau o ran cael mynediad at enwau a chyfeiriadau plant cymwys yn ystod Cam 2. Yn aml, roedd hyn yn golygu na ellid cysylltu’n uniongyrchol â theuluoedd, ac yn lle hynny roedd yr awdurdod lleol yn anfon llythyrau neu gardiau post cyffredinol i bob cartref yn ardal yr ehangu, yn ogystal â threfnu digwyddiadau allgymorth cymunedol neu ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol i wneud rhieni’n ymwybodol o’r gwasanaethau Dechrau’n Deg sydd ar gael iddynt. O ganlyniad, mynegodd sawl awdurdod lleol a Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru bryderon eu bod wedi methu â thargedu plant cymwys a fyddai fel arall wedi elwa o’r ymyriad.
- **Llinellau amser byr**: Wrth drafod heriau, ailddatganodd nifer fawr o awdurdodau lleol anawsterau o ran bodloni'r llinellau amser byr rhwng Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo cynlluniau ehangu Cam 2, yn enwedig Cam 2B, a phlant y disgwylir iddynt fynychu lleoliadau gofal plant.
- **Ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol**: Roedd diffyg sicrwydd ynghylch cyllid hirdymor ar gyfer Dechrau'n Deg yn cyfyngu ar y parodrwydd i fuddsoddi mewn cynyddu capasiti lleoliadau gofal plant neu i adeiladu lleoliadau newydd. Er enghraifft, roedd gan un awdurdod lleol ddigon o adnoddau a chapasiti i ariannu lleoedd gofal plant ychwanegol yn y flwyddyn gyfredol a'r posibilrwydd o

ragori ar eu targedau. Fodd bynnag, o ystyried y teimladau o ansicrwydd ynghylch cyllid yn y blynyddoedd i ddod, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen.

# 9. Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion ar gyfer y dyfodol

*Gwersi i awdurdodau lleol eu defnyddio'n lleol*

9.1 Nodwyd y gwersi a ddysgwyd o ddogfennaeth polisi, dadansoddi data monitro, yn ogystal â chyfweliadau ag awdurdodau lleol, Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru, a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru. Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar wersi i awdurdodau lleol eu gweithredu'n lleol ac i gefnogi gweithredu yn eu hardaloedd priodol:

- **Paratoi'n gynnar:** Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn paratoi ar gyfer ehangu posibl yn y dyfodol; er enghraifft, drwy ystyried lefelau amddifadedd ACEHI ychwanegol, estyn allan i leoliadau gofal plant newydd i ymuno â nhw a chynnig hyfforddiant iddynt, yn ogystal â recriwtio ar gyfer swyddi mewnol i gynyddu capasiti ar draws Timau Blynyddoedd Cynnar a thimau Anghenion Ychwanegol.
- **Buddsoddi mewn systemau prosesu data**: Daeth llawer o awdurdodau lleol i'r casgliad nad yw eu systemau prosesu data yn addas ar gyfer y nifer uwch o blant cymwys a chymhlethdod uwch yn dilyn yr ehangu. Awgrymodd awdurdodau lleol yn lle hynny y byddai'n well moderneiddio eu systemau prosesu data neu gyflwyno system unedig ar gyfer Cymru gyfan, a ddylai hefyd gynnwys gwirwyr codau post a phorth cofrestru ar-lein i rieni.
- **Cryfhau'r berthynas â gwasanaethau iechyd**: Eglurodd awdurdodau lleol, pe byddai rhwystrau i rannu data â byrddau iechyd, ei bod yn allweddol parhau i gydweithio'n lleol ag ymwelwyr iechyd. Roedd enghreifftiau'n cynnwys awdurdodau lleol lle'r oedd ymwelwyr iechyd yn dosbarthu cardiau post neu'n helpu teuluoedd i gofrestru ar gyfer lleoedd gofal plant fel rhan o Gam 2. Gellid cryfhau'r berthynas ymhellach trwy gyfathrebu aml, cynnwys ymwelwyr iechyd mewn cynllunio a chyfarfodydd rheolaidd, neu fel mewn rhai achosion, sefydlu gweithgorau gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol, ymwelwyr iechyd, a lleoliadau gofal plant.
- **Ystyried cyflogi Swyddogion Cyswllt:** Mae rhai awdurdodau lleol yn cyflogi 'Swyddogion Pontio' neu 'Swyddogion Cyswllt Gofal Plant' Dechrau'n Deg. Mae'r swyddi hyn yn chwarae rhan hanfodol, wrth ymweld â chartrefi teuluoedd a

chyfeirio teuluoedd at adnoddau ehangach neu wrth gefnogi lleoliadau gofal plant i fodloni gofynion cymwysterau neu gwblhau adroddiadau data.

- **Cyfathrebu'n hyblyg â rhieni:** Pwysleisiodd rhai awdurdodau lleol bwysigrwydd cyfathrebu'n hyblyg â rhieni. Mae hyn yn cynnwys darparu adrannau 'Cwestiynau a Ofynnir yn Aml' ar wefannau Dechrau'n Deg lleol, darparu llythyrau cynnig a ffurflenni cais mewn sawl iaith, yn ogystal â gweithio'n uniongyrchol gyda rhieni i hyrwyddo'r cynllun mewn achosion o amharodrwydd cychwynnol i fanteisio arno.

*Argymhellion i Lywodraeth Cymru eu defnyddio'n genedlaethol*

9.2 Mae'r argymhellion ehangach ar gyfer gweithredu gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i ehangu Dechrau'n Deg ledled Cymru yn cynnwys y mewnwelediadau a ganlyn:

- **Datblygu gweledigaeth strategol tymor hwy ar gyfer Dechrau'n Deg**: Pwysleisiodd y rhai a gyfwelwyd bwysigrwydd datblygu a chyfathrebu gweledigaeth fanwl a hirdymor ar gyfer Dechrau'n Deg. Gallai hyn roi sicrwydd i leoliadau gofal plant a rhieni, yn ogystal â chaniatáu i awdurdodau lleol gynllunio ymlaen llaw a gwneud y defnydd gorau o gyllidebau. Un enghraifft a awgrymwyd gan awdurdodau lleol oedd pennu dyddiad targed ar gyfer pryd y byddai Dechrau'n Deg yn dod yn wasanaeth cyffredinol. Byddai hyn yn cefnogi'r sector ac awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.
- **Hyrwyddo integreiddio aml-asiantaeth**: Ymhellach, awgrymodd awdurdodau lleol a Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru fwy o rôl i Lywodraeth Cymru o ran dod â byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ynghyd i annog rhannu data. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle nad oes llawer o gydweithio lleol uniongyrchol ar hyn o bryd. O ystyried blaenoriaeth strategol ehangu Dechrau'n Deg yn y Rhaglen Lywodraethu, ystyriwyd bod hybu integreiddio amlasiantaethol cynyddol rhwng gwasanaethau iechyd, awdurdodau lleol, a gwasanaethau cymdeithasol eraill yn hollbwysig.
- **Sicrhau amser paratoi digonol a chymeradwyaeth effeithlon o gynlluniau cyflenwi**: Roedd llawer o awdurdodau lleol yn wynebu oedi cyn cael cymeradwyaeth ar gyfer eu cynlluniau ehangu Cam 2 gan Lywodraeth Cymru neu eu hawdurdod lleol priodol. O'u cyfuno â'r amseroedd cyflwyno byr i

awdurdodau lleol baratoi cynlluniau cyflenwi, roedd y ddau ffactor yn heriol o ran caffael lleoedd ychwanegol, hysbysu rhieni a rhoi digon o amser iddynt gwblhau cofrestriad, ac i baratoi systemau adrodd data o fewn awdurdodau lleol. Argymhellir felly fod angen amseroedd cyflwyno hirach rhwng cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru a'r angen am gynlluniau cyflenwi gan awdurdodau lleol. Os nad yw hyn yn bosibl oherwydd amserlenni gwleidyddol, argymhellir yn lle hynny y dylai'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ddechrau'n hwyrach, gan ganiatáu amseroedd clustogi rhwng cymeradwyo'r cynllun cyflenwi a'i gyflwyno i gymryd i ystyriaeth unrhyw oedi posibl.

- **Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau caffael arloesol**: Dywedodd rhai awdurdodau lleol sy'n defnyddio Systemau Prynu Deinamig a Datganiadau o Ddiddordeb, yn hytrach na systemau caffael mwy traddodiadol, y dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo a rhannu'r gwersi a ddysgwyd o'r systemau hyn ledled Cymru. Mae potensial i hyn gynyddu nifer y lleoliadau gofal plant sy'n cymryd rhan, hwyluso ehangu hyblyg, a darparu hyblygrwydd i leoliadau.
- **Gwerthuso effaith**: Dylid gwerthuso ehangu graddol Dechrau'n Deg trwy werthuso effaith, yn ddelfrydol astudiaeth hydredol sy'n olrhain carfan o blant trwy gydol eu taith gofal plant. Dylai'r gwerthuso gymharu canlyniadau plant sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg a phlant tebyg nad ydynt yn gymwys. Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn casglu data perfformiad a chanlyniadau yn fewnol i'w cynorthwyo i nodi pa ddulliau a mathau o gymorth sy'n cynhyrchu effeithiau o sylwedd.

## 10. Casgliad

10.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthuso proses o ehangu graddol Dechrau'n Deg. Cynhaliwyd yr ymchwil drwy gyfrwng cyfnod cwmpasu, adolygiad manwl o'r ddogfen, ac ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid â swyddogion Llywodraeth Cymru a thimau Dechrau'n Deg holl awdurdodau lleol Cymru. Roedd prif amcan yr ymchwil yn cynnwys nodi (i) llwyddiannau a heriau yn y broses gyflenwi, (ii) effeithiau'r ehangu ar randdeiliaid megis awdurdodau lleol, lleoliadau gofal plant, a rhieni, (iii) enghreifftiau o arfer gorau, a iv) argymhellion ar gyfer y dyfodol.

10.2 Canfuwyd bod proses ehangu Cam 1 yn broses esmwyth a phwysleisiwyd cydweithio a chefnogaeth gyson Llywodraeth Cymru gydol y broses. Wrth drafod Cam 2, cytunodd awdurdodau lleol yn eang fod y ddarpariaeth hyd yma wedi bod yn llwyddiannus; fodd bynnag, nodwyd y byddai cyfnod paratoi hwy rhwng cyhoeddi'r cyllid ehangu a'r dyddiadau cau ar gyfer cynlluniau cyflenwi wedi helpu i gynnwys mwy o leoliadau gofal plant, hysbysu rhieni'n gynharach, ac addasu capasiti mewnol.

10.3 Roedd model cyflenwi Cam 1 yn dilyn prosesau tebyg ar draws awdurdodau lleol; fodd bynnag, roedd dulliau gweithredu'n amrywio'n ehangach yn ystod Cam 2. Roedd hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau ar faterion fel dewis ardaloedd, allgymorth, ysgogi lleoliadau gofal plant i ymuno â Dechrau'n Deg, a chydweithio â byrddau iechyd o ran rhannu data. Nodwyd gwahaniaethau pellach ynghylch darpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg, er gwaethaf ei fod yn cael ei ystyried yn eang fel datblygiad llwyddiannus, o ran cynyddu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg.

10.4 Nododd awdurdodau lleol yn ogystal â swyddogion Llywodraeth Cymru lwyddiannau allweddol o ran nifer cyffredinol y plant sy'n elwa o gyflwyniad y gwasanaethau ehangach, yn ogystal â rhagori ar dargedau ar draws nifer o awdurdodau lleol, yn achos Cam 1 a Cham 2. Nodwyd fod datblygu platfformau cofrestru a systemau data newydd yn llwyddiannau craidd pellach, gan ddatgloi buddion parhaol i'r dyfodol i awdurdodau lleol hyd nes eu bod yn cyrraedd targedau awdurdodau lleol priodol ar gyfer Cam 2, a rhag ofn y bydd ehangu yn y dyfodol. Roedd trydydd maes llwyddiant yn cynnwys nifer y lleoliadau gofal plant

ychwanegol a oedd yn rhan o Dechrau'n Deg, a oedd yn aml yn cael eu hannog drwy brosesau caffael symlach a llawer o gymorth gan awdurdodau lleol.

10.5 Serch hynny, drwy gydol y gwerthusiad o'r broses, codwyd nifer o heriau pellach gan randdeiliaid. Nododd y gwerthusiad bryderon mawr ynghylch recriwtio a chadw staff gofal plant cymwys, yn enwedig gweithlu sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal ag ymwelwyr iechyd. Ystyriwyd bod hyn yn cyfyngu ar gapasiti gofal plant mewn ardaloedd difreintiedig, a oedd yn arafu'r ehangu. Her ychwanegol a drafodwyd oedd y diffyg rhannu data rhwng byrddau iechyd a nifer o awdurdodau lleol, a ddisgrifiwyd fel un sy'n oedi'r broses o adnabod plant cymwys a'u manylion cyswllt. Llwyddwyd i oresgyn hyn mewn rhai ardaloedd lle sicrhawyd cytundebau rhannu data neu lle'r oedd cydweithio agos rhwng yr awdurdod lleol ac ymwelwyr iechyd yn cefnogi cyswllt llwyddiannus â theuluoedd.

10.6 I gloi, mae'r gwerthusiad o'r broses yn argymell llinellau amser paratoi hirach i alluogi awdurdodau lleol i ymgysylltu â lleoliadau gofal plant, ehangu capasiti lleol, ac addasu systemau data mewnol i ofynion adrodd newydd sydd ar y gweill. Ymhellach, argymhellwyd dull unffurf a safonol o fonitro casglu data, gan ddilyn yr un diffiniadau ledled Cymru i wella eglurder a chaniatáu i ddata ar draws awdurdodau lleol gael eu cymharu o ran cynigion a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Trwy gydol yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid, nodwyd bod casglu data hefyd yn bwysig - er ei fod yn digwydd yn llai aml, roedd yn fwy manwl. Gallai hyn gefnogi gwerthuso effaith y rhaglen yn y dyfodol, gan ganiatáu profi effaith y gwahanol gydrannau rhaglen ar ddatblygiad plentyn yn y blynyddoedd cynnar. Yn olaf, pwysleisiodd awdurdodau lleol bwysigrwydd datblygu a chyfleu gweledigaeth hirdymor glir o Dechrau'n Deg ar lefel genedlaethol, gan roi sicrwydd i awdurdodau lleol, lleoliadau gofal plant, a theuluoedd.

## Atodiad A: Canllaw trafod Rheolwyr Cyfrifon Llywodraeth Cymru

### Cychwyn y sesiwn

- I ddechrau, a allech chi ddisgrifio mewn ychydig eiriau eich rôl a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd fel rheolwr cyfrifon trwy gydol ehangu Dechrau'n Deg?

  *Cwestiwn trafod: Pa awdurdodau lleol sydd o fewn eich cylch gwaith?*

  *Cwestiwn trafod: Sut oedd eich cyfrifoldebau yn wahanol yn ystod yr ehangu o'i gymharu â'r rhaglen flaenllaw (os yw'n berthnasol)?*

### Cynnydd hyd yma

- A oeddech chi'n ymwneud â pharatoi a chynllunio'r ehangu? Os oeddech, a allech ddweud wrthym am y broses a arweiniodd at ddechrau gweithredu Cam 1 a Cham 2?

  *Cwestiwn trafod: Sut oedd gosod amcanion cynnar yn gweithio? Pwy oedd yn gysylltiedig â hyn?*

  *Cwestiwn trafod: A oedd gwahaniaethau ar draws awdurdodau lleol o ran eu lefel parodrwydd ar gyfer ehangu?*

- I ba raddau y cyflawnodd yr ehangu ei amcanion hyd yma?
- Pwy oedd aelodau craidd y tîm a beth oedd eich profiad o gyfathrebu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ar y naill ochr ac ALlau ar y llall?

  *Cwestiwn trafod: A oedd ALlau yn fodlon ar y llif cyfathrebu a'r amlder cyfathrebu yn ystod cynllunio a gweithredu'r ehangu?*

- I ba raddau roedd anghenion cymorth yn amrywio rhwng awdurdodau lleol?
- Beth oedd profiad awdurdodau lleol gyda'r cyllid a gafwyd ar gyfer y cyfnodau ehangu?

### Data

- Beth oedd eich rôl fel rheolwr cyfrifon wrth gasglu data a chyflwyno adroddiadau?
- A allech ddweud wrthym sut y casglwyd data ar gynnydd yr ehangu?

- A fyddech chi'n dweud bod y monitro a'r data targed a gasglwyd wedi dal cynnydd yr ALlau yn gywir?

  *Cwestiwn trafod: A ydych chi'n meddwl bod ffordd arall o fesur llwyddiant a/neu gynnydd?*

  *Cwestiwn trafod: A oes unrhyw ffordd y gellid gwella casglu neu fonitro data?*

- Pa adborth ydych chi wedi'i dderbyn gan ALlau ar faint o ddata ac ymdrech sydd ei angen i gasglu data o'r fath yn ystod yr ehangu?

  *Cwestiwn trafod: A oedd unrhyw agweddau eraill ar gasglu data y gofynnodd ALlau gwestiynau yn eu cylch, neu ddweud y byddent yn hoffi eu newid?*

- Rydym yn ymwybodol o ddwy ffordd o fesur y nifer sy'n manteisio ar leoedd gofal plant ar gyfer Cam 2. A ydych wedi cael unrhyw adborth am y dull hwn neu argymhelliad ar gyfer diffiniadau yn y dyfodol?

- A gasglwyd unrhyw newidynnau neu ddangosyddion eraill y gellid eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol neu a allai elwa o addasiadau yn y dyfodol?

**Cwestiynau trosfwaol**

- Pa lwyddiannau a gafwyd yn yr ehangu hyd yma?

  *Cwestiwn trafod: Beth sydd wedi gweithio'n dda yn ystod y cyfnod gweithredu?*

  *Cwestiwn trafod: A ddilynodd y gwaith y cynllun gwaith a gynigiwyd yn wreiddiol ar draws yr awdurdodau lleol?*

  *Cwestiwn trafod: A newidiodd unrhyw amcanion neu strategaethau allweddol?*

- Beth oedd y prif heriau y daethoch chi/yr ALl ar eu traws wrth gyflenwi hyd yma?

  *Cwestiwn trafod: Sut wnaethoch chi fynd i'r afael â heriau ar ôl eu nodi?*

  *Cwestiwn trafod: A ydych yn rhagweld y bydd unrhyw heriau yn eich wynebu cyn i chi gwblhau Cam 2?*

- Allech chi rannu unrhyw wersi a ddysgwyd gyda ni?

  *Cwestiwn trafod: A ellid bod wedi gwella cynllun a darpariaeth y rhaglen hyd yma mewn unrhyw ffordd?*

*Cwestiwn trafod: A ddylid bod wedi gosod blaenoriaethau cynllunio neu gyflenwi mewn modd gwahanol o gwbl?*

- A oes unrhyw awdurdodau lleol neu astudiaethau achos penodol a all ddangos y llwyddiant a/neu'r gwersi a ddysgwyd yn arbennig o dda yn eich barn chi?

**Ôl-drafodaeth**

- A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod nad ydym wedi gofyn i chi amdanynt?

## Atodiad B: Canllaw trafod Rheolwyr awdurdod lleol

### Cychwyn y sesiwn

- I gychwyn, a allech chi ddisgrifio mewn ychydig eiriau eich rôl a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd o ran ehangu Dechrau'n Deg yn eich awdurdod lleol?

  *Cwestiwn trafod: Sut oedd eich cyfrifoldebau yn wahanol yn ystod yr ehangu o'i gymharu â'r rhaglen flaenllaw (os yw'n berthnasol)?*

  *Cwestiwn trafod: A oeddech chi'n rhan o Gamau 1 a 2? Os felly, sut oedd eich cyfrifoldebau yn wahanol rhwng y ddau gam?*

### Cynnydd hyd yma

- I ba raddau y mae'r ehangu wedi cyflawni ei amcanion hyd yma yn eich awdurdod lleol? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.
- A oeddech chi'n ymwneud â pharatoi a chynllunio'r ehangu? Os oeddech, sut fyddech chi'n disgrifio parodrwydd eich awdurdod lleol ar ddechrau'r ehangu? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.

  *Cwestiwn trafod: Roedd awdurdodau lleol yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau trwy gyfarfodydd cenedlaethol cydgysylltwyr FS. A roddodd y fforwm hwn ddigon o gyfle i chi roi adborth a chymryd rhan yn y broses?*

- A oeddech chi'n teimlo eich bod yn cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a'r Rheolwyr Cyfrifon drwy gydol y broses ehangu? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.

  *Cwestiwn trafod: Beth oedd eich profiad o gyfathrebu â Llywodraeth Cymru drwy gydol yr ehangu hyd yma?*

  *Cwestiwn trafod: A oedd yr adnoddau a'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol?*

  *Cwestiwn trafod: A fyddech chi wedi bod angen unrhyw adnoddau cymorth ychwanegol? Os felly, pa fath o gymorth?*

- Beth oedd eich profiad gyda'r cyllid a gafwyd ar gyfer y cyfnodau ehangu? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.
- Beth oedd eich profiad o gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (nifer y lleoedd a'r lleoliadau) drwy ehangu Dechrau'n Deg yn eich awdurdod lleol? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.

  *Cwestiwn trafod: A oedd unrhyw lwyddiannau neu heriau penodol wrth ddarparu lleoedd iaith Gymraeg yn eich awdurdod lleol fel rhan o ehangu Dechrau'n Deg?*

  *Cwestiwn trafod: Sut ydych chi'n mesur y lleoedd Cymraeg a gynigir ac y manteisir arnynt yng Ngham 2?*

  *Cwestiwn trafod: A oes gennych unrhyw adborth arall ar sut y gellid gwella'r ddarpariaeth iaith Gymraeg fel rhan o ehangu Dechrau'n Deg?*

**Data**

- Beth oedd eich profiad gyda'r data yr oeddech yn gyfrifol am ei gasglu ac adrodd arno i Lywodraeth Cymru? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.

  *Cwestiwn trafod: A oeddech chi'n gallu casglu a darparu'r data hwn yn gyson?*

  *Cwestiwn trafod: Pa mor hyderus oeddech chi yn ansawdd y data a adroddwyd i Lywodraeth Cymru?*

  *Cwestiwn trafod: A oedd amser a maint y casglu data yn teimlo'n briodol?*

  *Cwestiwn trafod: A ddaethoch chi ar draws unrhyw heriau eraill wrth gasglu ac adrodd y data hwn?*

  *Cwestiwn trafod: Beth oedd eich profiad gyda data a oedd yn cael ei adrodd i chi yn ystod Cam 1, e.e. gan gydweithwyr a oedd yn ymwelwyr iechyd yn y GIG?*

  *Cwestiwn trafod: A wnaethoch chi gasglu unrhyw ddata ychwanegol nad oedd ei angen at ddibenion monitro gan Lywodraeth Cymru?*

- Rydym yn ymwybodol o wahanol ffyrdd o fesur y nifer sy'n manteisio ar leoedd gofal plant yng Ngham 2. Sut ydych chi wedi mynd ati i fesur y nifer sy'n manteisio? A pham aethoch chi ati i'w wneud fel hyn?
- Sut wnaethoch chi fesur y cynigion a wnaed i blant a theuluoedd yn eich awdurdod lleol yng Ngham 2? Pam defnyddio'r dull hwn?

- A fyddech yn dweud bod y data monitro a gasglwyd wedi dal cynnydd eich ALI yn gywir?

  *Cwestiwn trafod: A oes unrhyw newidynnau neu ddangosyddion wedi'u casglu a allai elwa o addasiadau?*

  *Cwestiwn trafod: A oes unrhyw newidynnau na ddylid eu casglu mwyach?*

  *Cwestiwn trafod: A oes unrhyw ddangosyddion a fyddai'n llawn gwybodaeth ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y casgliad data ar hyn o bryd?*

- A oes unrhyw ffordd y gellid gwella casglu neu fonitro data?

**Cwestiynau trosfwaol**

- Pa lwyddiannau a gafwyd yn y gwaith ehangu yn eich awdurdod lleol hyd yma? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.

  *Cwestiwn trafod: Beth sydd wedi gweithio'n dda yn ystod y cyfnod gweithredu?*

  *Cwestiwn trafod: A oedd y gwaith yn dilyn y cynllun gwaith a gynigiwyd yn wreiddiol yn eich awdurdod lleol?*

  *Cwestiwn trafod: A newidiodd unrhyw amcanion neu strategaethau allweddol?*

- Beth oedd y prif heriau y daethoch ar eu traws wrth gyflenwi hyd yn hyn? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.

  *Cwestiwn trafod: Sut wnaethoch chi fynd i'r afael â heriau ar ôl eu nodi?*

  *Cwestiwn trafod: A ydych yn rhagweld y bydd unrhyw heriau yn eich wynebu cyn i chi gwblhau Cam 2?*

  *Cwestiwn trafod: A oedd unrhyw dagfeydd yn y gweithredu ar lawr gwlad (e.e. methu â chyrraedd digon o deuluoedd cymwys neu brinder gweithlu?)*

- Allech chi rannu unrhyw wersi a ddysgwyd gyda ni? Gwahaniaethwch rhwng Cam 1 a Cham 2.

  *Cwestiwn trafod: A ellid bod wedi gwella darpariaeth y rhaglen hyd yma mewn unrhyw ffordd?*

  *Cwestiwn trafod: A ddylid bod wedi gosod blaenoriaethau cynllunio neu gyflenwi mewn modd gwahanol o gwbl?*

**Ôl-drafodaeth**

- A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod nad ydym wedi gofyn i chi amdanynt?

## Atodiad C: Trosolwg o ymgysylltu â rhanddeiliaid

| Math o randdeiliad | Rôl |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | Rheolwr cyfrifon Dechrau'n Deg |
| Llywodraeth Cymru | Rheolwr cyfrifon Dechrau'n Deg |
| Llywodraeth Cymru | Rheolwr cyfrifon Dechrau'n Deg |
| Llywodraeth Cymru | Rheolwr cyfrifon Dechrau'n Deg |
| Llywodraeth Cymru | Cyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio |
| Llywodraeth Cymru | Cymunedau a Threchu Tlodi – Blynyddoedd Cynnar |
| Awdurdod lleol | Ynys Môn |
| Awdurdod lleol | Blaenau Gwent |
| Awdurdod lleol | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Awdurdod lleol | Caerffili |
| Awdurdod lleol | Caerdydd |
| Awdurdod lleol | Sir Gaerfyrddin |
| Awdurdod lleol | Ceredigion |
| Awdurdod lleol | Conwy |
| Awdurdod lleol | Sir Ddinbych |
| Awdurdod lleol | Sir y Fflint |
| Awdurdod lleol | Merthyr Tudful |
| Awdurdod lleol | Sir Fynwy |
| Awdurdod lleol | Gwynedd |
| Awdurdod lleol | Casnewydd |
| Awdurdod lleol | Sir Benfro |
| Awdurdod lleol | Castell-nedd Port Talbot |
| Awdurdod lleol | Powys |
| Awdurdod lleol | Abertawe |
| Awdurdod lleol | Rhondda Cynon Taf |
| Awdurdod lleol | Torfaen |
| Awdurdod lleol | Bro Morgannwg |
| Awdurdod lleol | Wrecsam |